



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Gweithredu ar Anabledd Hawl i Fyw'n Annibynnol

Dyddiad cyhoeddi: 22 Hydref 2018  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn: 18 Ionawr 2019

**Trosolwg**

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw cael barn ar gynigion i ddatblygu a gwella mynediad at gymorth, cyngor a gwasanaethau i bobl anabl yng Nghymru. Nod *Gweithredu ar Anabledd: yr Hawl i Fyw'n Annibynnol* yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a'r tloedi a brofir gan y cymunedau hyn, gan hyrwyddo cyfle cyfartal a'u cefnogi i gael gafael yn haws ar wasanaethau prif ffrwd ac adnoddau

**Sut i ymateb**

Ymgynghoriad electronig, ysgrifenedig yw hwn. Mae'r cwestiynau wedi'u crynhoi ar ffurflen ymateb i'r Ymgynghoriad yn Atodiad A. Defnyddiwch yr holiadur hwn neu'r ffurflen ar-lein i roi eich adborth. Gellir anfon yr ymatebion drwy e-bost neu yn y post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae modd gweld y dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn:  
<https://beta.llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol>

**Manylion Cysylltu**

Am ragor o wybodaeth

Y Tîm Cydraddoldeb  
Is-adran Cymunedau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost:

[GweithreduArAnabledd.ActionOnDisability@llyw.cymru](mailto:GweithreduArAnabledd.ActionOnDisability@llyw.cymru)

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD,  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## **Beth yw'r Prif Faterion?**

Roedd *Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol* Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2013, yn nodi'r camau a oedd yn cael eu cymryd ar draws adrannau'r Llywodraeth i hyrwyddo cymdeithas gynhwysol sy'n galluogi pobl. Mae nifer o ddatblygiadau wedi effeithio ar bobl anabl yng Nghymru ers cyhoeddi'r Fframwaith blaenorol. Ond, mae Llywodraeth Cymru yn dal yn benderfynol o weithio gyda phobl anabl o bob oed, ac ar eu rhan, i herio canfyddiadau negyddol a chwalu'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyfrannu'n llawn at gymdeithas.

## **Ble rydym ni nawr?**

Yn ystod 2017, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu gennym gyda phobl anabl, mudiadau anabledd a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys llawer o adrannau Llywodraeth Cymru ac ystod ehangach o ddarparwyr gwasanaethau er mwyn adolygu'r Fframwaith gwreiddiol ac ystyried sut i symud ymlaen. Rydym hefyd wedi gallu ystyried barn a phrofiad pobl ifanc anabl a gyfrannodd at ddigwyddiadau ymgysylltu a gafodd eu trefnu gan Plant yng Nghymru. Roeddem eisiau gwybod a oedd pethau wedi gwella ers 2013 ac a yw'r prif flaenoriaethau ar gyfer gweithredu arnynt yn dal yr un fath. Cafodd Grŵp Llywio Byw'n Annibynnol ei sefydlu i ddatblygu olynydd i'r *Fframwaith*. Canlyniad y gwaith hwn ydy *Gweithredu ar Anabledd: yr Hawl i Fyw'n Annibynnol*.

## **Beth sy'n newydd.**

Mae adborth gan randdeiliaid wedi bod yn sail i'r dull gweithredu newydd a ddisgrifir yn y ddogfen hon. Bydd gennym brif ddogfen fframwaith a chynllun gweithredu. Mae pedair pennod yn y Ddogfen Fframwaith:

- Mae pennod 1 yn amlinellu'r cyd-destun polisi a statudol,
- Mae pennod 2 yn amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud a'r datblygiadau ers cyhoeddi'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol yn 2013.
- Mae pennod 3 yn crynhoi'r materion a godwyd a'r sylwadau a roddwyd gan bobl anabl yn ein digwyddiadau ymgysylltu yn 2017 a'r arolwg cysylltiedig.
- Mae pennod 4 yn nodi ymrwymïadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phobl anabl.

Ategir y Ddogfen Fframwaith gan nifer o offer a deunyddiau eraill, gan gynnwys cynllun gweithredu a fydd yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu datblygiadau newydd ac amgylchiadau wrth iddynt newid. Yn yr un modd, bydd amrywiaeth o astudiaethau achos ac enghreifftiau o arferion da yn cael eu darparu a'u diweddarau o bryd i'w gilydd. Bydd fersiynau hygyrch o'r Fframwaith, geirfa yn cynnwys y prif dermau a Chwestiynau Cyffredin hefyd yn cael eu darparu.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn i chi ystyried y Ddogfen Fframwaith newydd a chynllun gweithredu sy'n gyfredol adeg ei gyhoeddi.

## Cynnwys

Rhagair y Gweinidog .....	6
Cyflwyniad.....	8
Pennod 1 – Egwyddorion Cyffredinol.....	10
Pennod 2 – Faint o Gynnydd sydd wedi’i Wneud?.....	17
Pennod 3 – Materion a Godwyd drwy Ymgysylltu .....	21
Pennod 4 – Ymrwymadau Llywodraeth Cymru .....	28
Atodiad 1 – Dolenni i Ystadegau ar Anabledd .....	30

## Rhagair y Gweinidog



Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu pobl anabl i wireddu eu potensial a chyflawni eu huchelgeisiau a'u breuddwydion. I sicrhau hyn mae'n rhaid i ni weithio'n galed i chwalu'r rhwystrau sy'n atal uchelgeisiau o'r fath. Mae hynny'n bendant yn cynnwys rhwystrau ffisegol mewn adeiladau a threfi yn ogystal ag yng nghefn gwlad. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys rhwystrau sydd wedi'u creu gan sefydliadau ac agweddau pobl. Mae pobl anabl yn dweud wrthym dro ar ôl tro mai'r rhain yw'r rhwystrau sy'n eu llethu fwyaf ac sy'n eu hatal

rhag byw y bywyd yr hoffon nhw ei fyw, yn fwy nag unrhyw gyfyngiadau sy'n ymwneud â'u cyrff eu hunain.

Rhaid mynd ati o ddifri i weithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn. Yn benodol, rydym yn gwybod y byddwn yn sicrhau rhagor o gynnydd a gwell canlyniadau drwy weithio gyda phobl anabl er mwyn deall y materion yn iawn a chanfod atebion sy'n gweithio.

Mae'r Fframwaith hwn yn dangos sut y byddwn ni'n gwneud hyn. Daw hyn o ganlyniad i lawer o ymgysylltu â phobl anabl a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli nhw, a hynny am bron i ddwy flynedd. Mae'r gwaith wedi cael ei wneud mewn gweithdai ledled Cymru, gan grwpiau bach o bobl ag arbenigedd a phrofiad yng nghyswllt amrywiaeth eang o anabledau, drwy gannoedd o negeseuon e-bost, llythyrau, galwadau ffôn a sgysiau mewn cartrefi, gweithleoedd, ysgolion a chymunedau. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi helpu yn ystod y broses hon, yn enwedig y Grŵp Llywio sydd wedi goruchwylio'r cyfan, dan arweiniad Anabled Cymru.

Hefyd, hoffwn ddiolch yn benodol i'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi cyfrannu at y gwaith o greu'r Fframwaith. Maen nhw wedi helpu i sicrhau bod ein dull gweithredu ni'n addas ar gyfer pob oedran ac yn addas i'r dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r ddogfen flaenorol, sef "Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013. Fel o'r blaen, mae'r fframwaith newydd hwn yn nodi sut y byddwn ni'n cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Gofensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCPRD). Mae hefyd yn amlygu rôl deddfwriaethau allweddol gan gynnwys Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, sef Ffyniant i Bawb. Mae'r "Model Cymdeithasol o Anabled" yn sail i'r holl Fframwaith, sef y dull gweithredu sy'n cydnabod yr angen i drawsnewid y gymdeithas, gan chwalu'r rhwystrau fel bod modd i bobl anabl gyfrannu'n llawn. Caiff y sylfeini hyn i gyd eu hegluro'n fanylach ym Mhennod 1.

Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar y prif faterion a nodwyd gan bobl anabl a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'i gilydd yn aml, er enghraifft yr angen i helpu pobl anabl sy'n ddi-waith ac sydd eisieu gweithio i ddod o

hyd i swyddi. Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i symud yr agenda hon yn ei blaen, gan ystyried pwerau sydd wedi'u datganoli a rhai sydd heb eu datganoli. Mae pobl anabl wedi dweud wrthym fod gweithredu lleol yn hollbwysig. Felly, mae'r Fframwaith wedi'i llunio i annog Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, cyflogwyr a sefydliadau ar bobl lefel i gymryd sylw o'r ymrwymïadau a nodir ym Mhennod 4, gan eu hefelychu nhw hyd y bo modd.

Mae strwythur y Fframwaith hwn yn newydd ac mae'r brif ddogfen yn nodi'r egwyddorion, y cyd-destun cyfreithiol a'r ymrwymïadau sy'n sail i'n holl waith gyda phobl anabl ac ar eu rhan. Mae Cynllun Gweithredu yn cyd-fynd â hyn ac mae'n amlygu'r prif gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd neu yn eu harwain ar hyn o bryd. Mae'r cynllun hwn wedi'i lunio i gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r Fframwaith ar gael mewn amrywiaeth o fersiynau hygyrch ac mae deunydd atodol wrthi'n cael ei ddatblygu hefyd, gan gynnwys enghraifft o arferion da.

Cefnogi pobl i fyw eu bywyd yn y ffordd maen nhw'n ei dewis yw'r peth iawn i'w wneud. Rydw i'n cymeradwyo'r Fframwaith hwn er mwyn annog gweithredu gyda phobl anabl ac ar eu rhan ledled Cymru.



**Julie James AC**  
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Gweinidog dros Gydraddoldeb**

## Cyflwyniad

Roedd y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013, yn nodi'r camau er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol sy'n galluogi pobl. Nod y Fframwaith oedd lleihau neu ddileu rhwystrau sy'n atal cydraddoldeb a chynhwysiant mewn cymdeithas fel bod pobl anabl yn cael yr un cyfleoedd â phawb arall. Roedd yn nodi meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu - cyngor a gwybodaeth, eiriolaeth, cefnogaeth a gofal personol, technoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cyflogaeth, tai, cludiant a mynediad i leoedd. Roedd yn cydnabod bod y rhain yn rhyng-gysylltiedig: mae pob un yn rhan o jig-so y mae angen iddo fod yn gyflawn er mwyn creu cymdeithas sy'n galluogi pobl go iawn.

Mae llawer o ddatblygiadau wedi effeithio ar bobl anabl yng Nghymru ers cyhoeddi'r Fframwaith blaenorol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i weithio gyda phobl anabl o bob oed ac ar eu rhan, er mwyn herio canfyddiadau negyddol a chwalu rhwystrau sy'n eu hatal rhag chwarae rhan lawn mewn cymdeithas. Mae'r Fframwaith newydd hwn yn adlewyrchu rhai o'r prif newidiadau ac yn amlinellu'r ymrwymiad hwn o'r newydd.

Yn ystod 2017, gwnaethom gynnal cyfres o gyfarfodydd a digwyddiadau i ymgysylltu â phobl anabl, sefydliadau anabledd, darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys llawer o adrannau Llywodraeth Cymru er mwyn adolygu'r Fframwaith gwreiddiol ac ystyried sut i symud ymlaen. Roeddem yn awyddus i weld a oedd pethau wedi gwella er 2013 ac a oedd y prif flaenoriaethau ar gyfer gweithredu wedi newid. Cyhoeddwyd arolwg ar-lein hefyd i gasglu barn pobl anabl a sefydliadau anabledd o bob cwr o Gymru. Rydym wedi ystyried barn a phrofiad pobl ifanc anabl a gymerodd ran mewn digwyddiadau ymgysylltu wedi'u trefnu gan Plant yng Nghymru. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at y gwaith, yn enwedig aelodau'r Grŵp Llywio a fu'n goruchwylio'r broses gyfan.

Mae'r Fframwaith yn cynnwys pedair pennod:

- Mae Pennod 1 yn amlinellu'r cyd-destun statudol a pholisi, gan dynnu sylw at Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl a Hawliau Plant a Phobl Ifanc; y Model Cymdeithasol o Anabledd; Deddf Cydraddoldeb 2010; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru a *Ffyniant i Bawb*, y strategaeth genedlaethol i Gymru.
- Mae Pennod 2 yn amlinellu cynnydd a datblygiadau ers y Fframwaith Gweithredu blaenorol ar gyfer Byw'n Annibynnol a gyhoeddwyd yn 2013.
- Mae Pennod 3 yn crynhoi'r materion a godwyd a'r sylwadau a gafodd eu gwneud gan bobl anabl yn ein digwyddiadau ymgysylltu yn 2017 a'r arolwg cysylltiedig.
- Mae Pennod 4 yn nodi ymrwymïadau Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â phobl anabl a fydd yn sail i bolisiâu a gweithredoedd yn ymwneud ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymiad i fonitro a gwerthuso'r Fframwaith yn barhaus, gan gynnwys drwy ein Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Bwrdd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.



Cefnogir y Fframwaith hwn gan ystod o offer a deunyddiau eraill, gan gynnwys cynllun gweithredu a fydd yn cael ei gadw'n gyfredol i adlewyrchu newid mewn amgylchiadau a datblygiadau newydd. Yn yr un modd, bydd amrywiaeth o enghreifftiau o ymarfer da ac astudiaethau achos yn cael eu paratoi, ac yn cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Darperir fersiynau hygyrch o'r Fframwaith, rhestr o'r termau allweddol ac enghreifftiau o gwestiynau cyffredin.

Yn y Fframwaith blaenorol, roedd darparwyr gwasanaethau lleol a rhanddeiliaid yn cael eu nodi fel rhai a allai wneud cyfraniad allweddol er mwyn cyflawni nodau'r Fframwaith. Er bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad cenedlaethol, er enghraifft ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae gweithredu ar y lefel leol yn hanfodol er mwyn creu cymunedau cynhwysol sy'n galluogi pobl ac yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau unigolion o ddydd i ddydd. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a darparwyr gwasanaethau eraill yn gweithio mewn partneriaeth â phobl anabl a'u sefydliadau er mwyn gweld y problemau, canfod atebion a manteisio ar gyfleoedd i wella gwasanaethau.

Cafodd pwysigrwydd y gweithredu a'r ymgysylltu lleol hwn ei gadarnhau yn ein gwaith ymgynghori yn 2017 a gan Grŵp Llywio'r Fframwaith. Disgwyliad clir Llywodraeth Cymru felly yw y bydd pob darparwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a llawer o sefydliadau ac unigolion yn y sector preifat a'r trydydd sector yn rhoi cefnogaeth frwd i'r Fframwaith hwn a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Yn fwyaf arbennig, rydym yn annog pobl eraill i fabwysiadu'r ymrwymadau sydd ym Mhennod 4 y Fframwaith a'u rhoi ar waith mewn sefydliadau, gwasanaethau a chymunedau ledled Cymru.

## Pennod 1 – Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r prif gytuniadau rhyngwladol a'r deddfwriaethau yng Nghymru a'r DU sy'n sail i'r hyn rydym yn ei wneud ym maes anabledd (cyfeirir at ragor o ddeddfwriaethau arwyddocaol ym Mhennod 2). Mae'r bennod hon hefyd yn tynnu sylw at brif strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol i Gymru a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys eglurhad o'r Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n elfen sylfaenol o'n dull o alluogi pobl anabl i fyw bywydau annibynnol. Mae rhan olaf y bennod yn cydnabod pa mor bwysig yw ymgysylltu'n barhaus â phobl anabl.

### Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei olygu wrth ddweud “Byw'n Annibynnol”?

Mae byw'n annibynnol yn golygu bod pob person anabl yn cael yr un **rhyddid, urddas, dewis a rheolaeth** ag y mae dinasyddion eraill yn ei gael gartref, yn ei waith, mewn addysg ac yn y gymuned. Nid yw'n golygu byw ar eich pen eich hun neu orfod gwneud popeth drosoch eich hun o reidrwydd. Mae'n golygu hawl i gael cefnogaeth a chymorth ymarferol i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas yr un fath â phobl eraill.

Mae'n ymwneud â sicrhau bod pobl o bob oed ac o bob cymuned yn gallu dal i fyw'n annibynnol, bod yn hapus ac yn iach a chael cefnogaeth briodol pryd bynnag a sut bynnag y mae arnynt ei hangen.

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Rhaid i weithredoedd Llywodraeth Cymru fod yn gydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, fel y nodir yn adran 82 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.<sup>1</sup>

<https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities.html>

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn gytuniad rhyngwladol sy'n hyrwyddo ac yn diogelu holl hawliau dynol pobl anabl, ac yn sicrhau bod pobl anabl yn cael yr un hawliau yn union â phawb arall. Mae erthyglau'r Confensiwn yn ymdrin â llawer o wahanol feysydd, gan gynnwys hygyrchedd, byw'n annibynnol, addysg, iechyd, a gwaith a chyflogaeth.

O ran byw'n annibynnol, mae Erthygl 19 (Byw'n annibynnol a chynhwysiant yn y gymuned) yn nodi:

- Mae gan bobl anabl hawl gyfartal i fyw yn y gymuned a chymryd rhan ynddi.
- Mae gan bobl anabl yr un hawl i'r un dewis a rheolaeth â phobl nad ydynt yn anabl.
- Rhaid i Lywodraethau gydnabod y dylai pobl anabl gael yr hawliau hyn.

<sup>1</sup> Mae llawer o bobl yn y Deyrnas Unedig (DU) yn cyfeirio at y Confensiwn fel 'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl', sef y term sy'n cael ei ffafrio gan lawer o bobl anabl a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli, yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae'r Cenhedloedd Unedig (CU) wedi derbyn y defnydd hwn, gan gynnwys yn yr archwiliad diweddaraf o gydymffurfiaid y DU â'r Confensiwn yn 2017. Yn unol â hynny, mae'r Fframwaith hwn yn defnyddio'r term “pobl anabl” yn hytrach na “phobl ag anableddau”.

Yn Awst 2017, bu'r Cenhedloedd Unedig yn archwilio i ba raddau roedd y Deyrnas Unedig (DU) yn cydymffurfio â'r Confensiwn. Teithiodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru i Genefa ar gyfer yr archwiliad, a oedd yn cael ei arwain gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Treuliodd y Pwyllgor ddau ddiwrnod yn craffu ar ddulliau'r DU o roi'r Confensiwn ar waith a thynnodd sylw at nifer o feysydd a oedd yn peri pryder ac yr oedd angen eu gwella.

Cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ei **Arsylwadau Casgliadol** yn dilyn yr archwiliad. Nid oedd argymhellion penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru, ond roedd nifer o argymhellion cyffredinol i'w rhoi ar waith yng Nghymru.

[https://tbinternet.ohchr.org/\\_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2fC%2fGBR%2fCO%2f1&Lang=en](https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2fC%2fGBR%2fCO%2f1&Lang=en)

Mae'r Fframwaith hwn a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi egwyddorion y Confensiwn ar waith, gan ystyried argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig lle bo'n briodol.

## Y Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd wedi'i ymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl ac mae wedi cael ei addasu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Model Cymdeithasol yn gwahaniaethu rhwng 'nam' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl sydd â nam<sup>2</sup> yn cael eu hanalluogi gan rwystrau sy'n bodoli'n aml mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, sy'n gallu atal cynhwysiant a chyfranogiad pobl anabl ym mhob agwedd ar fywyd.

- Yn ôl y model cymdeithasol o anabledd, nam yw'r hyn yr arferid cyfeirio ato fel "anabledd" neu gyflwr iechyd. I lawer o bobl anabl (ond nid pob un), mae eu nam yn rhan fawr o'u bywydau a gallai fod yn rhan o'u hunaniaeth bersonol. I rai pobl, bydd angen llawer o waith i reoli eu nam ac efallai y bydd arnynt angen cymorth meddygol parhaus. Mae'r profiad o nam yn rhywbeth personol. Mae profiad pawb yn wahanol. Mae'r profiad hwnnw bob amser yn ddilys ac mae bob amser yn bwysig.
- Anabledd ar y llaw arall yw'r anghydraddoldeb, yr anfantais, y dadrymuso neu'r gwahaniaethu a allai effeithio ar bobl sydd â nam o ganlyniad i rwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad a chael eu cynnwys. Er enghraifft, mae grisiau yn rhwystr i rywun sydd mewn cadair olwyn; mae gosod lifft yn chwalu'r rhwystr hwnnw. Enghreifftiau eraill o rwystrau yw diffyg darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain neu system dolen, dim darpariaeth braille, print bras neu wybodaeth glywedol, diffyg cyfleoedd ar gyfer gwaith rhan-amser ac oriau gwaith hyblyg, diffyg gofal cymdeithasol priodol neu ddealltwriaeth o faterion iechyd meddwl neu anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Mae anabledd felly'n effeithio ar bobl sydd â nam, ond mae'n wahanol i nam. Mae anabledd yn analluogi rhywun sydd â nam.

---

<sup>2</sup> Nodweddion person yw namau. Gallent bara gydol oes, ond nid o reidrwydd, a gallent ddeillio o salwch neu anaf, ond nid o reidrwydd. Gallent effeithio ar ymddangosiad person a/neu'r ffordd y mae'n gweithredu neu'n cyfathrebu a/neu gallent achosi anawsterau amrywiol gan gynnwys poen a blinder.

Gellir cael gwared ar rwystrau. Os ydych yn cael gwared ar y rhwystr rydych yn cael gwared ar yr anabledd.

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl “mae anabledd yn deillio o’r rhyngweithio rhwng unigolion sydd â namau a rhwystrau o ran agwedd ac amgylcheddol sy’n eu hatal rhag cymryd rhan lawn ac effeithiol mewn cymdeithas ar sail gyfartal ag eraill”<sup>3</sup>. Pe bai’r Model Cymdeithasol yn cael ei wireddu’n llawn byddai’n trawsnewid cymdeithas, gan gael gwared ar rwystrau, a byddai hynny’n golygu bod pobl anabl yn gallu chwarae rhan lawn mewn cymdeithas.

Yn y gorffennol, mae’r dull o ymdrin ag anabledd yn y DU wedi bod yn seiliedig ar y Model Meddygol o Anabledd (lle mae nam rhywun yn cael ei weld fel rhywbeth sy’n ei analluogi). Mae mabwysiadu’r Model Cymdeithasol o Anabledd felly’n galw am newid agwedd, diwylliant a’r ffordd rydym yn gweithio. Drwy fabwysiadu dull gweithredu sy’n seiliedig ar chwalu rhwystrau – a gweithio gyda phobl anabl er mwyn canfod atebion – gallwn greu polisi gwell a gwasanaethau gwell i bawb. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud y newid diwylliannol hwn, ond mae’n cydnabod y bydd angen gwaith dros gyfnod i sicrhau bod pob agwedd arall ar ein gwaith yn unol â’r Model Cymdeithasol o Anabledd.

### Y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu

Gallwn ddsbarthu’r rhan fwyaf o’r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu, yn fras iawn, i’r meysydd a ganlyn.

<p><b>Rhwystrau o ran agwedd</b></p>	<p>Gall agweddau unigolion helpu i greu’r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu. Gall y penderfyniadau rydych yn eu gwneud, yr iaith rydych yn ei defnyddio, a’ch ymddygiad naill ai <b>greu</b> neu <b>chwalu</b> rhwystrau. Gall rhwystrau o ran agwedd effeithio ar bob agwedd ar gyfranogiad pobl anabl mewn cymdeithas.</p> <p>Yn ychwanegol at hyn, gall gweithredoedd sy’n ynysu neu’n allgau pobl anabl (hyd yn oed os ydynt yn gwneud hynny’n anfwriadol) gael effaith niweidiol iawn ar iechyd meddwl a lles personol.</p>
<p><b>Rhwystrau sefydliadol</b></p>	<p>Gall polisiâu a gweithdrefnau atal pobl anabl rhag cyfranogi’n llawn mewn addysg, yn y gweithle ac yn y gymuned ehangach, hyd yn oed os na fwriadwyd iddynt wneud hynny.</p> <p>Enghreifftiau o bolisiâu sy’n cynorthwyo pobl anabl i gyfranogi’n llawn yw polisiâu ar addasiadau rhesymol a chyfleoedd ar gyfer addysg neu gyflogaeth ran-amser a hyblyg. Gall diffyg polisiâu o’r fath, neu fethiant i’w rhoi ar waith, achosi rhwystrau sylweddol o safbwynt cydraddoldeb.</p>
<p><b>Rhwystrau cyfathrebu</b></p>	<p>Mae llawer o wahanol fathau o rwystrau cyfathrebu – er enghraifft, defnyddio iaith anodd ei deall, peidio â darparu dehonglwr iaith Arwyddion Prydain neu wybodaeth mewn ffurfiau eraill neu osod arwyddion yn rhy uchel i ddefnyddwyr cadair olwyn.</p>

<sup>3</sup> Paragraff (e) yn y rhaglith i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

	Mae rhwystrau cyfathrebu'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd pobl anabl. Er enghraifft, os nad yw'r byrddau gwybodaeth mewn gorsafoedd rheilffordd yn cael eu hategu gan gyhoeddiadau sain, mae'n bosibl na fydd pobl sydd wedi colli eu golwg yn gwybod bod angen newid plattform, a gallai hynny olygu eu bod yn colli'r trê. Mae hyn yn amharu ar eu gallu i deithio, gan gyfyngu ar eu cydraddoldeb a'u gallu i gyrraedd addysg, apwyntiadau neu gyflogaeth mewn pryd.
<b>Rhwystrau amgylcheddol</b>	Mae'r enghreifftiau mwyaf amlwg o rwystrau amgylcheddol yn cynnwys peidio â darparu mynediad llawn a phriodol i adeilad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Ymhlith yr enghreifftiau o rwystrau llai amlwg mae peidio â meddwl sut y byddai pobl anabl yn cyrraedd lleoliad ar gyfer cyfarfod, cynllunio ystafelloedd heb lawer o wrthgyferbyniad ynddynt, sy'n golygu ei bod yn anodd i bobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall neu sydd â syndrom Usher gyfranogi'n llawn mewn unrhyw weithgareddau yn yr ystafelloedd hyn, neu beidio â bod yn ymwybodol o'r angen i bylu goleuadau neu ostwng lefel y sŵn ar gyfer rhai pobl anabl.

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau dynol plant dan 18 oed. Cafodd ei gadarnhau gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (CU) yn 1989. Yn 1991, cytunodd y Deyrnas Unedig yn ffurfiol i sicrhau bod gan bob plentyn yn y DU bob un o'r hawliau sy'n cael eu rhestru yn y confensiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r Confensiwn fel sail i wneud polisiau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2004.

Mae 54 o erthyglau yn y Confensiwn. Mae Erthyglau 1-42 yn nodi sut y dylai plant gael eu trin tra mae Erthyglau 43-45 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae Erthygl 23 yn datgan y dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth i'w galluogi i fyw bywyd llawn ac annibynnol.

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori hawliau plant mewn cyfraith ddomestig drwy gyflwyno *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*. Mae'r Mesur yn sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r protocolau dewisol yn rhan annatod o gyfraith Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrrff penodol ystyried y Confensiwn wrth gyflawni swyddogaethau.

Mae'r Mesur yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried hawliau plant wrth gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau. Mae **Cynllun Hawliau Plant 2014** yn amlinellu'r trefniadau sy'n bodoli er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i hawliau plant.

<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140501-childrens-rights-scheme-2014-cy.pdf>

## **Deddf Cydraddoldeb 2010**

### **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Yn fyr, mae'n rhoi dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i roi ystyriaeth briodol wrth gyflawni eu swyddogaethau er mwyn gwneud y canlynol:

- Cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;
- Cynyddu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; a
- Meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Gan adeiladu ar y Ddeddf ei hun, roedd Rheoliadau penodol i Gymru<sup>4</sup> yn gosod sylfaen bellach er mwyn sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru. Yn unol â'r Rheoliadau hyn, rhaid i gyrrff rhestredig baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd. Wrth ddatblygu eu hamcanion cydraddoldeb, rhaid i awdurdodau gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau.

Gyda'i gilydd, mae'r gofynion statudol hyn yn darparu sail i graffu a herio lleol, ac i gyrrff cyhoeddus weithio mewn partneriaeth â phobl anabl er mwyn gwella gwasanaethau lleol. Mae hefyd yn darparu ffordd o adnabod anghenion penodol neu batrymau anfantais, a meddwl am atebion ymarferol i'w rhoi ar waith.

### **Dyletswydd i Wneud Addasiadau Rhesymol**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn nodi bod gan gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau ddyletswydd, drwy wneud addasiadau rhesymol, i gael gwared â'r anfanteision sy'n wynebu pobl anabl er mwyn sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael mynediad at swyddi, addysg a gwasanaethau yr un mor rhwydd â phobl nad ydynt yn anabl. Cyfeirir at hyn fel y 'ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol'. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i Lywodraeth Cymru yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r ddyletswydd hon i bob pwrpas yn ategu'r Model Cymdeithasol o Anabledd a gall gynnwys, er enghraifft, y canlynol:

- Sicrhau bod cyfathrebiadau a gwybodaeth yn hygyrch i bawb;
- Cyflwyno arferion mwy hyblyg mewn sefydliadau;
- Cael gwared ar rwystrau ffisegol yn yr amgylchedd neu eu lleihau;
- Darparu cymhorthion neu gyfarpar i gynorthwyo gweithiwr i wneud ei waith.

Gall yr hyn sy'n rhesymol ddibynnu ar nifer o ffactorau, ond y nod, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, fydd dileu neu leihau unrhyw anfantais sylweddol a wynebir gan berson anabl o'i gymharu â pherson nad yw'n anabl.

---

<sup>4</sup> Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym yn Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol ac i Lywodraeth Cymru roi datblygu cynaliadwy ar waith. Mae hyn yn cynnwys gweithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y cyfeirir ati yn aml fel y pum dull o weithio) sy'n cynnwys yr angen i roi sylw i'r cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a thymor hir, cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, atal problemau a defnyddio dulliau gweithredu mwy cydweithredol, neu gydgysylltiedig – helpu i greu Cymru y bydd pob un ohonom eisiau byw ynddi, heddiw ac yn y dyfodol.

Bwriedir i hyn gefnogi dull integredig o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a phwyslais ar roi llais i bobl a chymunedau yn y ffordd y mae eu gwasanaethau'n cael eu darparu.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys yr angen i ddarparu cynaliadwyedd drwy gydweithio, ac i ddatblygu atebion a fydd yn dal eu tir.

Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd dan y Ddeddf yn defnyddio dull integredig a chydweithredol o ymdrin â darparu gwasanaethau, lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn asesu llesiant eu hardal a gosod amcanion cyffredin. Mae'n ofynnol i'r byrddau ystyried cyflwr llesiant pobl yn eu hardal, ac mae pobl sydd â nodwedd warchoddedig gyffredin yn un o'r categorïau y maent yn cael eu hannog i'w hystyried. Mae canllawiau statudol yn amlinellu disgwyliadau clir y dylai Byrddau ystyried effaith eu gwaith ar wahanol bobl yn y gymuned ac yn atgoffa aelodau o'u dyletswyddau unigol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## **Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol i Gymru**

Mae *Ffyniant i Bawb* – y Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd ym Medi 2017 yn amlinellu prif ymrwymadau Llywodraeth Cymru rhwng nawr a 2021, dan bedair thema drawsbynciol:

- *Ffyniannus a Diogel* – datblygu economi sy'n cynnig ffyniant a chyfleoedd i bawb ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.
- *Iach ac Egniol* – gwella iechyd a llesiant a gweithio er mwyn newid y pwyslais o drin cyflyrau i atal cyflyrau.
- *Uchelgeisiol ac yn Dysgu* – annog uchelgais a dysgu gydol oes.
- *Unedig a Chysylltiedig* – adeiladu'r cysylltiadau i ddod â phobl at ei gilydd, hwyluso twf economaidd, a gwneud Cymru'n genedl fwy hyderus.

Mae *Ffyniant i Bawb* yn rhoi ein hymrwymadau mewn cyd-destun hirdymor, ac yn amlinellu sut y maent yn cyd-fynd â'r gwaith y mae gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru yn ei wneud i osod y sylfeini ar gyfer cyflawni ein nodau.

Mae'r un dull trawslywodraethol a amlinellwyd yn '*Ffyniant i Bawb*' wedi cael ei ddatblygu er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae ymrwymadau'n cysylltu â'i gilydd, sut y gallwn eu cyfuno â gwasanaethau craidd rydym yn eu darparu; sut y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar y pethau sy'n bwysig; a sut y gallwn weithio'n wahanol gyda'n partneriaid er mwyn cael mwy o effaith.

Mae'n cefnogi ein nodau parhaus o helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol a gall gynnig ateb mwy effeithiol drwy fynd i'r afael â materion yn genedlaethol ac yn lleol. Un o'r prif negeseuon a glywsom gan bobl anabl a'u sefydliadau yn ystod ein hadolygiad o'r Fframwaith yn ddiweddar oedd bod fframwaith deddfwriaethol a pholisi Llywodraeth Cymru yn gryf, ond bod gweithredu a chyflawni ar lefel leol yn gallu bod yn anghyson.

Mae'r Cynllun Gweithredu sy'n mynd gyda'r Fframwaith hwn wedi'i drefnu o amgylch pedair thema *Ffyniant i Bawb*.

## **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig yn 2016 a oedd yn amlinellu ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2016-2020, a'r camau rydym yn eu cymryd er mwyn eu cyflawni.

<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/161214-strategic-equality-plan-cy.pdf>

Datblygwyd yr Amcanion Cydraddoldeb yn dilyn proses ymgysylltu ac ymgynghori fanwl â grwpiau gwarchoddedig ledled Cymru. Pwrpas yr Amcanion Cydraddoldeb yw cryfhau'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd y naill flwyddyn ar ôl y llall wrth ddatblygu cydraddoldeb a chynhwysiant i bob grŵp gwarchoddedig.

Mae cefnogi pobl anabl yn cyfrannu at nifer o'r Amcanion Cydraddoldeb. Er hyn, mae'r pwyslais mwyaf ar Amcan 1: *Gwneud anghenion, hawliau a chyfraniadau pobl â nodweddion gwarchoddedig yn ganolog i'r broses o ddyfynio a darparu'r holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd ac iechyd meddwl, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant. Yn benodol, sicrhau cymorth a mynd i'r afael â rhwystrau i alluogi pobl anabl i fwynhau eu hawl i fyw'n annibynnol a bod â llais, dewis a rheolaeth yn eu bywydau.*

## **Ymgysylltu Parhaus**

Datblygwyd y Fframwaith hwn o'r dechrau drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl anabl yng Nghymru a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Adlewyrchir eu cyfraniadau'n fanwl, yn enwedig ym Mhennod 3. Mae'r negeseuon hyn wedi'n helpu ni i adnabod y prif rwystrau sy'n atal pobl rhag byw'n annibynnol ym mhob un o'r meysydd darparu gwasanaeth cyhoeddus hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltu'n ystyrlon. Os ydym yn ymgysylltu, rydym yn gwranddo.

Mae nifer o ffyrdd y byddwn ni'n parhau i'w defnyddio i ymgysylltu, gan gynnwys ar-lein, drwy sianeli cyfathrebu, ymgynghori ffurfiol ac ymgysylltu â chymunedau.

Dim ond drwy ymgysylltu â phobl y gallwn wybod ein bod yn darparu'r hyn y mae ar bobl ei angen a'i eisiau a meddwl am syniadau gwell a dulliau mwy arloesol.



## Pennod 2 – Faint o Gynnydd sydd wedi'i Wneud?

[Nodyn: bydd y bennod hon yn parhau i gael ei datblygu yn ystod y cyfnod ymgynghori i adlewyrchu datblygiadau cyfredol]

### i) DEDDFWRIAETH

Gwelwyd datblygiadau sylweddol yn genedlaethol ers cyhoeddi'r Fframwaith blaenorol yn 2013, gan gynnwys pasio:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014  
<https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb>
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015  
<https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>
- Deddf Tai (Cymru) 2014  
<https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/legislation/housing-act/?skip=1&lang=cy>
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016  
<https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/legislation/rentingbill/?skip=1&lang=cy>

Mae pob un o'r Deddfau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n cefnogi byw'n annibynnol. Yn fwyaf arbennig, mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* yn darparu'r fframwaith statudol i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru er mwyn gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofaluwr sydd angen cefnogaeth. Mae'r Ddeddf yn rhoi diffiniad o lesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth. Mae gan bawb, oedolion a phlant fel ei gilydd, hawl i gael eu clywed, i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd.

Mae'r cod ymarfer sy'n gysylltiedig â Rhan 2 o'r Ddeddf yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn â'u dyletswyddau yn hyn o beth. Mae'r cod ymarfer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i Gonfensiwn y CU ar Hawliau Pobl Anabl wrth gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â phobl anabl sydd angen gofal a chymorth a gofaluwr anabl sydd angen cefnogaeth. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud Taliadau Uniongyrchol yn gymwys ac yn hygyrch i fwy o bobl, sy'n ffordd bwysig o alluogi pobl i ddewis, mynegi barn a chael mwy o reolaeth dros y ffordd y maent eisiau i'w hanghenion gofal a chymorth gael eu diwallu a gweld eu canlyniadau personol yn cael eu cyflawni.

Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* (gweler hefyd Bennod 1) yn amlinellu saith nod llesiant – ar gyfer y llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrrff cyhoeddus eraill a enwir. Mae hefyd yn nodi sut y mae'n rhaid i'r cyrrff hyn weithio, a gweithio gyda'i gilydd, er mwyn gwella llesiant pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys y pum 'dull o weithio' er mwyn llywio gwasanaethau cyhoeddus

yng Nghymru a sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer pobl (fel y nodwyd yn fanylach uchod).

Roedd *Deddf Tai (Cymru) 2014* yn cynnwys darpariaethau gyda'r bwriad o foderneiddio a gwella cyflwr tai yn y sector tai rhent preifat a gwella arferion landlordiaid ac asiantau gosod eiddo. Erbyn hyn mae'n ofynnol i landlordiaid preifat gofrestru, cael eu trwyddedu os ydynt yn cyflawni gwaith rheoli eiddo neu dai, neu benodi asiantau trwyddedig i wneud gwaith o'r fath. Yn ogystal â chael eu trwyddedu, rhaid i asiantau hefyd gael eu cofrestru.

Bwriedir i hyn wella safonau ymarfer gosod a rheoli yn y sector tai rhent preifat.

Bydd *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*, sy'n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd, yn darparu fframwaith cyfreithiol wedi'i symleiddio ar gyfer rhentu sy'n seiliedig ar ddau fath o gontract meddiannaeth, a fydd yn disodli'r rhan fwyaf o'r trefniadau tenantiaeth presennol. Bydd hyn yn berthnasol i dai cymdeithasol sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ac i dai sy'n cael eu rhentu gan landlordiaid preifat. Darperir datganiadau contract ysgrifenedig enghreifftiol. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu math newydd o gontract meddiannaeth i unrhyw berson sy'n dal eiddo ac yn darparu gwasanaethau cefnogi arbennig, gan gynnwys cefnogi pobl sy'n ei chael hi'n anodd i fyw'n annibynnol, er enghraifft oherwydd bod ganddynt nam gwybyddol neu ddeallusol. Yn ychwanegol at hyn, ac yn wahanol i'r ddeddfwriaeth dai bresennol, bydd y Ddeddf yn ymestyn hawliau olyniaeth i ofalwyr.

### **Budd i'r Gymuned**

Mae polisi Budd i'r Gymuned Llywodraeth Cymru yn annog defnyddio "gofynion cymdeithasol" yn amodau contractau er mwyn sicrhau gwerth am arian drwy ddarparu cymaint ag sy'n bosibl o fudd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth gaffael nwyddau, gwasanaethau neu waith sydd ei angen ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Un o brif amcanion y polisi Budd i'r Gymuned yw creu cyfleoedd ar gyfer gwaith a hyfforddiant i bobl sydd 'dan anfantais', sy'n cynnwys pobl anabl. Mae'r polisi hefyd yn annog ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi, gan gynnwys ymgysylltu â Busnesau a Gynorthwyr sy'n cyflogi, yn hyfforddi ac yn helpu pobl sydd dan anfantais i ymuno â chyflogaeth brif ffrwd.

### **Contractau Neilltuol**

Mae *Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015* yn cynnwys dwy ddarpariaeth ar gyfer contractau neilltuol sydd wedi'u cynllunio'n benodol i helpu prynwyr y sector cyhoeddus a'r cyrff hynny y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn i roi sylw i nodau cynhwysiant cymdeithasol drwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer gwaith a hyfforddiant, a rhoi mwy o annibyniaeth i bobl sydd dan anfantais. Mae neilltuo contract dan y naill ddarpariaeth neu'r llall yn caniatáu i brynwyr wahaniaethu o blaid busnesau sydd â

phwrpas cymdeithasol. Dim ond y busnesau hynny sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol sydd â hawl i gyflwyno tendr. Yn fwyaf arbennig, mae rheoliad 20 (Contractau neilltuol) wedi'i gynllunio i gefnogi cyfleoedd ar gyfer gwaith a hyfforddiant i bobl anabl neu bobl sydd dan anfantais.

<http://prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/150226publiccontractsregulations2015.pdf>

## ii) POLISIÂU A RHAGLENNI ERAILL

Ochr yn ochr â'r datblygiadau deddfwriaethol hyn gwelwyd llawer o raglenni, polisiau a phrosiectau gan Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd wedi cefnogi nodau'r Fframwaith blaenorol, gan gynnwys:

- Cynllun Cyngor Da: Byw'n Well, sy'n helpu i gefnogi a chynyddu incwm teuluoedd sydd â phlant anabl, ac yn eu helpu i gael y budd-daliadau.
- Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyr a Chyfathrebu â hwy:  
<https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/standards/?skip=1&lang=cy>  
Nod y Safonau yw amlinellu'r safonau darparu gwasanaeth y dylai pobl sydd â nam ar eu synhwyr ddisgwyl y byddant yn cael eu bodloni pan fyddant yn derbyn gofal iechyd yng Nghymru.
- Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi cynhyrchu canllaw ar ddadansoddi ar safle ar gyfer datblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol. Dylai gwneud dadansoddiad da o'r safle olygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynnar i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn hygyrch i bawb.  
[https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/dcfw-cdn/InclusiveDesign\\_traininghandbook.pdf](https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/dcfw-cdn/InclusiveDesign_traininghandbook.pdf)

Cynnal Adolygiad o'r System cymhorthion ac addasiadau sy'n cynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Bydd canlyniad yr adolygiad yn sail i bolisi cymhorthion ac addasiadau yn y dyfodol ac yn symleiddio'r broses bresennol. Disgwylir derbyn yr argymhellion terfynol cyn diwedd 2019.

- Cyhoeddi Safon Ansawdd Bysiau Cymru gyda'r bwriad o sicrhau bod yr ansawdd y mae'n rhesymol i deithwyr ei ddisgwyl yng nghyswllt gwasanaethau bysiau lleol, yn gyson i bawb ym mhob cwr o Gymru, a bod gweithredwyr bysiau lleol yn cael eu hannog i wella ansawdd y gwasanaethau maent yn eu darparu i deithwyr. Mae'r Safon, sy'n wirfoddol, yn cynnwys gofynion yn ymwneud â hygyrchedd.  
<https://gov.wales/topics/transport/public/bus-policy/voluntary-welsh-bus-quality-standard/?skip=1&lang=cy>
- Dechreuodd y rhaglen Cymunedau am Waith ym mis Mehefin 2015. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth un-i-un wedi'i deilwra i gefnogi unigolion drwy system frysbenneu lle mae cynghorwyr, mentoriaid a phartneriaid allweddol eraill yn gweithio gyda'i gilydd i gynorthwyo'r unigolyn hwnnw i gael gwaith. Erbyn Awst 2018, roedd y rhaglen wedi ymgysylltu ag 17,000 o bobl. Roedd gan dros 4,200 o'r rhain gyflyrau iechyd a oedd yn amharu ar eu gallu i weithio ac roedd o

leiaf 1,800 ohonynt yn bobl anabl. Mae'r rhaglen wedi cynorthwyo dros 5,700 o unigolion i gael gwaith.

<https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communities-for-work/?skip=1&lang=cy>

- Roedd prosiect Galluogi Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei weithredu gan Anabledd Cymru, mewn partneriaeth â Chanolfan Cydweithredol Cymru a Chanolfan Byw'n Annibynnol Dewis. Bu'r prosiect yn gweithio gydag oedolion a phobl ifanc anabl ledled Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o gydraddoldeb a hawliau pobl anabl. Yn ogystal, cefnogwyd dau sefydliad ar gyfer pobl anabl, y naill yng Ngheredigion a'r llall yn y Fflint, i ddod yn Ganolfannau Byw'n Annibynnol, a fyddai'n cael eu rhedeg fel mentrau cymdeithasol hunangynhaliol.

## Pennod 3 – Materion a Godwyd drwy Ymgysylltu

Er bod y cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf i'w groesawu, mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud eto cyn y byddwn mewn sefyllfa lle bydd pobl anabl yn gallu cael yr un cyfleoedd â phawb arall.

Yn y bennod hon rydym wedi crynhoi'r prif faterion a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu ac yn yr arolwg, gan nodi sylwadau ac awgrymiadau'r rhai a gymerodd ran ym mhob adran.

Mae'r materion a restrir yma a'r camau gweithredu yn y bennod nesaf yn cael eu gosod dan bedair thema drawsbynciol *Ffyniant i Bawb, y Strategaeth Genedlaethol*. Bydd hyn yn sicrhau bod y camau gweithredu yn gydnaws â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

### FFYNIANNUS A DIOGEL

Y nod yw hybu economi Gymreig sy'n cynnig cyfleoedd i bawb ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant i unigolion ac i'n cenedl. Bydd hyn yn galluogi pobl i wireddu eu huchelgais ac i wella eu llesiant drwy gyflogaeth ddiogel a chynaliadwy; chwalu'r rhwystrau y mae nifer yn eu hwynebu wrth chwilio am waith; a chreu'r amgylchedd iawn i fusnesau dyfu a ffynnu.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos bod 45.2% o'r bobl anabl rhwng 16 a 64 oed mewn gwaith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, o gymharu ag 80.3% o'r bobl nad oeddent yn anabl<sup>5</sup> (mae dolen i ystadegau sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd ar weithgarwch economaidd pobl anabl wedi'i chynnwys yn Atodiad 1). Mae'r ystadegau diweithdra ar gyfer rhai grwpiau yn llawer uwch e.e. pobl sydd ag anabledau dysgu, gan adlewyrchu'r rhwystrau sylweddol sy'n atal rhai pobl anabl rhag cael gwaith.

### Materion a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu

**Cyflogaeth** – Dywedodd pobl anabl wrthym mai'r prif ffactorau a oedd yn eu rhwystro rhag cael gwaith, yn eu barn hwy, oedd agweddau negyddol rhai cyflogwyr a chydweithwyr. Yn aml iawn mae disgwyliadau pobl eraill yn rhy isel, ac mae hyn yn cyfyngu ar allu pobl anabl i gyflawni eu potensial. Mae hefyd yn golygu bod cyflogwyr yn colli'r manteision a all ddod yn sgil cyflogi pobl anabl, o ran eu profiad, galluoedd a sgiliau.

Dywedasant wrthym hefyd pa mor bwysig yw gwaith iddynt, er mwyn eu helpu i fyw'n annibynnol, a hefyd er mwyn gwella eu hyder, eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r rhwydweithiau cymdeithasol sy'n cael eu ffurfio drwy fod mewn gwaith yn werthfawr iawn ac maent yn cyfrannu tuag at lesiant.

Gall ymgeisio am swydd fod yn her ac mae rhai pobl anabl yn dweud bod arnynt angen cymorth i ddefnyddio offer anhygyrch wrth chwilio am swyddi ar-lein a deall gwybodaeth am swyddi. Gall rhwystrau ffisegol mewn adeiladau neu faterion yn ymwneud â

<sup>5</sup> StatsCymru (2018). Crynodeb o weithgarwch economaidd yng Nghymru yn ôl blwyddyn a statws anabl, o Ebrill 2013. Darllenwyd 19/09/18. URL: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/summaryofeconomicactivityinwales-by-year-disabledstatus-fromapril2013>

chludiant gyfyngu ar gyfleoedd rhai pobl i gael gwaith. Mae rhwystrau eraill yn cynnwys lefelau cymharol isel o gymwysterau, a phrinder cyfleoedd i hyfforddi a dysgu sgiliau. Roedd rhai o'r ymatebwyr wedi bod ar gynlluniau i wella eu cyflogadwyedd ond roeddent yn siomedig nad oedd llawer o gyfleoedd gwaith ar gael iddynt hyd yn oed ar ôl hynny. Mae ar bobl ifanc anabl eisiau gweithio, ac os cânt gyfle gallant gyd-gynhyrchu atebion creadigol a chost isel i gael gwaith.

Roedd diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol hefyd, ymhlith cyflogwyr a darpar weithwyr, o'r cymorth sydd ar gael, er enghraifft drwy'r cynllun Mynediad i Waith, sy'n gallu ariannu addasiadau amrywiol i helpu pobl anabl i gael swydd neu i gadw swydd.

**Tai** – Yn gyffredinol, mae prinder tai hygyrch, yn enwedig yn y sector rhentu preifat, sy'n aml yn cael ei ddefnyddio gan bobl ifanc anabl sy'n dymuno byw'n annibynnol am y tro cyntaf. Yn lle hynny, mae pobl ifanc anabl yn dewis lle i fyw drwy edrych ble mae gan y gwasanaethau leoedd gwag. Clywsom un enghraifft o berson ifanc 21 oed yn gorfod symud i ddarpariaeth ar gyfer pobl hŷn gan mai dyna'r unig lefyd hygyrch a oedd ar gael. Gallai mwy o gydgyssylltu rhwng adrannau cynllunio, tai a gwasanaethau cymdeithasol helpu i wella sefyllfaoedd fel hyn.

Mae prinder tai addas yn cyfyngu ar allu pobl anabl i symud o gwmpas Cymru a gall hefyd gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer addysg a chyflogaeth.

Cyfeiriodd rhai pobl at y "dreth ystafell wely" a sut roedd y dreth hon wedi eu gorfodi i aros gyda'u rhieni neu symud i lefyd nad oedd yn addas ar gyfer eu hanghenion.

Yn aml iawn nid yw datblygwyr preifat yn ystyried hygyrchedd wrth adeiladu cartrefi newydd er bod mwy a mwy o alw am dai hygyrch wrth i'r boblogaeth heneiddio.

Os oes angen gwneud addasiadau i gartrefi sy'n bodoli'n barod, mae'n hanfodol bod darparwyr gwasanaethau'n sicrhau eu bod yn addas i'r diben drwy gynnwys y defnyddiwr yn y broses ddylunio a gwneud penderfyniadau. Clywsom enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi eu gwneud i gartrefi pobl, heb ymgynghori â hwy, a'r addasiadau yn dilyn hynny wedi achosi anaf.

## **IACH AC EGNÏOL**

Y nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu i wireddu'n huchelgais o sicrhau ffyniant i bawb, a chymryd camau mawr i newid ein ffordd o weithio, gan newid y pwyslais o drin cyflyrau i atal cyflyrau.

Rydym hefyd yn awyddus i Gymru gael sector gofal cymdeithasol cynaliadwy o safon uchel, â gwasanaethau ataliol ac integredig yn y gymuned, i helpu pobl i fyw bywydau annibynnol.

Canfu adolygiad o'r dystiolaeth ar anghydraddoldebau ym maes mynediad at wasanaethau gofal iechyd i bobl anabl yng Nghymru dystiolaeth o anghydraddoldeb mewn nifer o feysydd, gan gynnwys disgwyliad oes, llythrennedd iechyd, cyfathrebu hygyrch a gwasanaethau iechyd meddwl.

<http://gov.wales/statistics-and-research/review-evidence-inequalities-access-health-services-wales/?lang=en>

Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 yn cynnwys Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (WEMWBS), graddfa o gwestiynau hunanasesu sy'n mesur llesiant meddwl. Mae'r sgorau'n amrywio o 14 i 70, ac mae sgôr uchel yn awgrymu llesiant meddwl cryfach. Roedd gan unigolion a ddywedodd bod ganddynt salwch, anabledd neu lesgedd hirsefydlog sgôr WEMWBS gryn dipyn yn is (48.5) na'r rhai oedd heb salwch, anabledd neu lesgedd o'r fath (52.8).<sup>6</sup>

## Materion a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu

Roedd pobl anabl yn teimlo y dylent allu cyflawni eu potensial ym mhob agwedd ar fywyd â chymorth system iechyd hygyrch. Nid yw gwasanaethau bob amser mor hygyrch ag y gallent fod. Er enghraifft, mae angen addasu'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau er mwyn sicrhau preifatrwydd unigolion, cael diagnosis cywir a rhoi'r driniaeth iawn. Mae cymorth i gyfathrebu'n hanfodol, ac ni ddylai cleifion orfod dibynnu ar ofalwyr neu aelodau o'r teulu i fod yn gyfryngwyr, boed wrth wneud apwyntiadau neu yn ystod ymgynghoriadau meddygol. Nid yw'r slot o 10 munud ar gyfer apwyntiad meddyg yn ddigon o amser i bobl ifanc sydd ag anabledd dysgu ddeall beth mae'r meddyg yn ei drafod gyda nhw.

Awgrymwyd y gallai technoleg newydd fod yn ddefnyddiol iawn er mwyn gwella'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu mewn sawl agwedd ar iechyd a gofal cymdeithasol, ond ni ddylai gael ei defnyddio yn lle cyswllt personol lle mae angen hynny.

Mae rhai pobl ifanc anabl yn dweud nad ydynt yn cael mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol oherwydd eu bod yn anabl, er y dylent gael yr un hawl i gael yr wybodaeth hon ag unrhyw berson ifanc arall.

Mae oedolion, plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd a'u lles meddyliol yn wael o gymharu â chymheiriaid nad ydynt yn anabl. Er hyn, dywedodd pobl anabl wrthym eu bod yn methu â chael cymorth os nad ydynt mewn argyfwng.

Mae gweithgareddau a gynlluniwyd er mwyn hybu cynhwysiant cymdeithasol (e.e. clybiau dawnsio, nosweithiau cymdeithasol) yn cael eu cwtoegi oherwydd pwysau ar y gyllideb leol. Teimlid bod hyn yn anystyriol gan ei fod yn cael mwy o effaith ar bobl anabl, ac yn cael effeithiau hirdymor negyddol ar iechyd a llesiant.

Mae ar rai pobl anabl angen cymorth ag anghenion gofal personol. Gall hyn eu gwneud yn agored i niwed, felly mae'n bwysig eu bod yn cael gwybodaeth hygyrch ynglŷn â chyffyrddiad priodol ac amhriodol. Mae newid staff yn gwneud i bobl anabl deimlo'n ansicr, ac maent yn hapusach os gallant ddatblygu perthynas gyda'u gweithwyr cymorth.

---

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru (2017). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17: Lles Meddyliol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. URL: <https://gov.wales/docs/statistics/2017/171010-national-survey-2016-17-mental-wellbeing-en.pdf>



Mae newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn yn her i bobl ifanc anabl. Mae pobl ifanc anabl yn dweud nad ydynt yn gwybod ble i fynd i gael cymorth pan maent eisiau byw'n annibynnol ar eu rhieni. Yn aml iawn mae rhieni'n ofalwyr hefyd, ac maent yn gyndyn o ollwng y rôl honno, sy'n golygu bod y person ifanc hefyd yn poeni y bydd yn cael effaith ar y berthynas rhyngddynt. Mae ar bobl ifanc anabl angen mynediad at grwpiau, eiriolaeth neu weithdai i'w haddysgu a'u cyfeirio at y cymorth priodol.

Clywsom fod toriadau i'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol wedi arwain at lai o ddyraniadau i Daliadau Uniongyrchol sy'n golygu bod oedolion a phobl ifanc anabl yn mynd yn fwyfwy ynysig a bod yr effeithiau ar eu llesiant yn cael eu rhoi yn y fantol. Mae rhieni a gafodd eu hasesu fel gofalwyr dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi cyfeirio at broblemau iechyd meddwl. Mewn rhai achosion, er bod y cymorth y mae'r Ddeddf yn darparu ar ei gyfer wedi cael ei ddyrannu iddynt, nid oedd y gwasanaethau ar gael iddynt ar yr adeg roedd arnynt eu hangen e.e. mae rhai'n dweud eu bod yn gorfod archebu gofal seibiant 6 wythnos ymlaen llaw.

Roedd galw am hyfforddiant i bobl anabl, gan gynnwys plant a phobl ifanc a'u gofalwyr, ynglŷn â'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, mae rhieni'n ansicr a allant wrthod darparu anghenion meddygol eu plentyn os nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny, ac a oes gan weithwyr cymdeithasol hawl i edrych o gwmpas eu cartref pan nad oes unrhyw faterion amddiffyn plant.

## UCHELGEISOL AC YN DYSGU

Y nod yw creu'r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau, a'u hysbrydoli i fod y gorau y gallant fod. Os ydym am weld Cymru'n ffynnu, mae angen pobl greadigol, sy'n fedrus iawn ac yn gallu addasu, felly bydd ein haddysg o'r oedran cynharaf un yn sylfaen i oes o ddysgu a chyflawni.

Yn 2017, roedd cyfran y plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yng Nghymru a lwyddodd i gael o leiaf bum gradd A\* - C yn eu harholiadau TGAU, gan gynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg a mathemateg, yn 20.6%, tra roedd yn 66.6% i blant heb AAA<sup>7</sup> (mae dolen i ystadegau sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd ar gyrhaeddiad academaidd disgyblion sydd ag AAA wedi'i chynnwys yn Atodiad 1).

Mae gan wasanaethau gwybodaeth a chyingor dibynadwy, sydd wedi'u hintegreiddio'n dda, ran bwysig i'w chwarae er mwyn addysgu pobl ynglŷn â'u hawliau a'u helpu i wneud dewisiadau deallus. Gall hyn hefyd gyfrannu tuag at lesiant drwy helpu pobl i helpu eu hunain, a gall atal problemau rhag mynd yn waeth.

### Materion a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu

**Addysg** – Mae rhai pobl, gan gynnwys rhai darparwyr addysg a chyflogwyr, yn dal i ragdybio nad oes modd dysgu neu gyflogi pobl anabl neu nad ydynt eisiau dysgu a chael gwaith, ac roedd galw ar addysgwyr i annog a chefnogi plant anabl i anelu'n uchel a chyflawni. Mae rhai pobl ifanc anabl yn dweud eu bod yn cael eu hannog i ddysgu

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru (2018). Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion. Darllenwyd 19/09/18. URL: <https://llyw.cymru/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?skip=1&lang=cy>



sgiliau oes mewn ysgolion a cholegau, yn hytrach na chael cymwysterau addysgol; ond mae arnynt eisiau gwneud cyfuniad o'r ddau.

Mae'n bwysig bod plant anabl a'u teuluoedd yn cael y gefnogaeth iawn yn y blynyddoedd cynharaf er mwyn iddynt fod yn barod i fanteisio ar addysg. Er enghraifft, mae angen i blant sydd â nam ar eu golwg, neu broblemau symud, ddysgu sut i symud o gwmpas yn ddiogel yn eu hamgylchedd er mwyn iddynt ddatblygu'r hyder sydd ei angen i fynd i ysgol.

Mae cyfeillgarwch yn hollbwysig er mwyn i blant anabl fwynhau ysgol. Mae bwlio'n fater y mae'n rhaid rhoi sylw iddo mewn ysgolion prif ffrwd ac mewn ysgolion arbennig. Mae gan rai ysgolion strategaethau effeithiol er mwyn mynd i'r afael â bwllis ond mae gormod o achosion o hyd lle does dim yn newid mewn gwirionedd hyd yn oed ar ôl i staff ymyrryd.

Mae rhwystrau ffisegol hefyd yn dal i fodoli mewn rhai ysgolion ledled Cymru, a gallai hyn olygu bod plant anabl yn gorfod mynd i ysgolion arbennig yn hytrach nag ymuno â'u ffrindiau mewn addysg brif ffrwd.

Ychydig iawn o gyfleoedd sydd gan rai pobl ifanc anabl i symud ymlaen i addysg bellach, gwirfoddoli neu gyflogaeth. Dywedodd pobl ifanc ag anableddau dysgu wrthym nad yw profiad gwaith yn cael ei gynnig iddynt fel arfer, a hyd yn oed pan mae'n cael ei gynnig, nid oes llawer o gyfleoedd i symud ymlaen yn aml. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc anabl yn gallu teimlo nad ydynt yn cael llawer o gefnogaeth a bod y dewisiadau sydd ar gael iddynt ar ôl gadael ysgol yn brin iawn.

Dywedodd oedolion anabl fod toriadau wedi'u gwneud ym maes addysg bellach a dosbarthiadau addysg oedolion, a bod hynny'n cyfyngu ar eu dewisiadau ar gyfer dysgu yn ogystal â rhyngweithio'n gymdeithasol. Mae cyfeillgarwch yn bwysig iawn ar gyfer llesiant, ond o ganlyniad i gau dosbarthiadau, mae cyfleoedd i ddatblygu a chynnal cyfeillgarwch yn brinnach erbyn hyn.

Roedd rhai hefyd yn credu y gallai hyn olygu bod llai o bobl anabl yn mynd ymlaen i Addysg Uwch oherwydd ei bod yn gallu cymryd mwy o amser iddynt gael y cymwysterau sy'n ofynnol a bod arnynt angen dosbarthiadau addysg bellach i gefnogi'r cam hwnnw.

Mae mwy a mwy o wasanaethau **gwybodaeth a chyngor** yn cael eu darparu ar-lein, ac er bod hyn yn eu gwneud yn fwy hygyrch i rai, mae'n bosibl y bydd ar eraill angen cymorth i gael mynediad atynt. Nid oes gan bawb gyfrifiadur, na'r sgiliau i'w ddefnyddio.

Mae ar eraill angen fformatau hygyrch neu gymorth i ddod o hyd i atebion i gwestiynau penodol. Pan mae gan bobl gwestiynau ynglŷn â'r wybodaeth y maent yn ei darllen ar-lein, dylent allu troi at rywun i ofyn am ateb, ond nid yw hyn yn bosibl bob amser.

Gall y ffaith fod cymaint o wybodaeth ar gael ar-lein erbyn hyn achosi problemau i rai gan nad yw bob amser yn gywir neu'n ddibynadwy. Mae angen i bobl wybod pa wefannau sy'n rhai y gellir ymddiried ynddynt.

Gall gwasanaethau sy'n cynnig cyngor wyneb yn wyneb, fel Cyngor ar Bopeth, fod yn ddefnyddiol i rai, ond yn aml iawn mae ganddynt restrau aros, neu nid ydynt yn gallu cynnig mwy na gwybodaeth gyffredinol.

## **UNEDIG A CHYSYLLTIEDIG**

Y nod yw meithrin cenedl lle mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd. Cefnogir hyn drwy adeiladu'r cysylltiadau hanfodol sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddod ynghyd, i'r economi dyfu, ac i Gymru ddod yn genedl hyderus.

### **Materion a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu**

Y mater a godwyd amlaf gan bobl anabl yn ystod y broses ymgysylltu oedd hygrychedd ac argaeledd cludiant cyhoeddus. Roedd hyn yn effeithio ar allu pobl anabl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn annibynnol ond gallai hyfforddiant teithio fod o gymorth yn hyn o beth, pan fo trafniadaeth ar gael o leiaf. Dywedasant fod methu â mynd o gwmpas yn y gymuned leol ac ymhellach i fwrdd yn cael effaith ar eu gallu i dderbyn gwaith, i gyrraedd apwyntiadau, i ddefnyddio gwasanaethau hamdden a chyhoeddus, neu hyd yn oed i gwrdd â theulu a ffrindiau. Mae prinder lle ar fysiau i nifer o bobl anabl deithio yr un pryd yn broblem, ynghyd â theithio ar y trê'n mewn cadair olwyn gan fod rhaid gwneud trefniadau ymlaen llaw i gael cymorth.

Roedd symud o gwmpas mewn lleoedd cyhoeddus yn broblem i lawer o bobl anabl, a soniwyd am broblemau â rhwystrau ar bafinau, gan gynnwys dodrefn stryd, arwyneb gwael a cheir wedi eu parcio mewn lleoedd anystyriol.

I rai, nid oedd mynd i mewn i adeilad yn broblem fawr fel arfer, ond roeddent yn wynebu rhwystrau wrth symud o gwmpas y tu mewn i'r adeilad. Roedd y rhwystrau hyn yn cynnwys grisiau, dim arwyddion clir a dim lifftiau. Cyfeiriodd llawer at ysbytai fel lleoedd lle nad oedd hi'n hawdd symud o gwmpas ynddynt a dod o hyd i'r adran iawn.

Clywsom hefyd nad oes mynediad digonol i weithgareddau hamdden ar gyfer pobl anabl, a'i bod hi weithiau'n anodd dod o hyd i lleoedd hygrych yn y gymuned i gynnal digwyddiadau cymdeithasol. Mae rhai pobl yn methu â defnyddio gweithgareddau hamdden heb gymorth cynorthwyr personol / gweithwyr gofal. Mae'n bwysig eu bod yn cael hyfforddiant er mwyn deall eu rôl a sicrhau nad ydynt yn oramddiffynol.

Er bod gwaith wedi cael ei wneud i annog pobl anabl i bleidleisio ac i sefyll mewn etholiadau, dywedodd rhai bod rhwystrau o hyd, gan gynnwys mynediad i adeiladau, diffyg cymorth i gyfathrebu ac agweddau negyddol.

Dywedodd pobl ifanc anabl bod y rhan fwyaf o'r grwpiau cyfarfod sydd ar gael iddynt yn grwpiau cymdeithasol neu'n grwpiau ar gyfer prosiectau penodol, ac nad oes llawer o lwyfannau iddynt ymwneud â materion gwleidyddol neu ddysgu am eu hawliau.

Yn fwy cyffredinol, dywedodd pobl wrthym fod angen cysylltu camau gweithredu ym mhob maes polisi â'r agenda lesiant; teimlai pobl anabl bod darparwyr gwasanaethau yn aml yn anelu'n rhy isel wrth ddarparu gwasanaethau i bobl anabl, gan fodloni

safonau gofynnol yn unig. Gobeithid y byddai gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o gymorth yn hyn o beth gan y byddai'n annog cyrff cyhoeddus i gynnwys pobl anabl y cylch mewn polisïau a chynlluniau o'r dechrau, yn hytrach na rhagdybio beth sydd ei angen.

## **Materion Cyffredin**

Roedd rhai materion a oedd yn gyffredin i bob un o'r pedair thema, a'r prif un oedd diffyg gwybodaeth a chyngor hygyrch. Er enghraifft, yng nghyswllt opsiynau ar gyfer tai, pa grantiau sydd ar gael, cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant, a gwybodaeth am drafnidiaeth i deithwyr.

Roedd anghysondeb o ran darparu gwasanaethau lleol a'r graddau y mae darparwyr gwasanaethau lleol yn hybu byw'n annibynnol yn peri pryder i rai. Mewn rhai ardaloedd mae'n ymddangos nad oes llawer o ymgysylltu â phobl anabl yn ystod y cyfnod pan mae polisïau a rhaglenni newydd yn cael eu datblygu. Canlyniad hyn yn aml iawn yw bod angen camau adfer yn nes ymlaen, ac mae hynny'n gwastraffu amser ac adnoddau.

Roedd rhwystredigaeth hefyd nad oedd rhagor o gefnogaeth wedi'i rhoi i ddatblygu mentrau cymdeithasol a sefydliadau cydweithredol i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol mewn ffyrdd sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y gwaith o gynllunio a rhedeg gwasanaethau, fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pan ofynasom i bobl anabl beth arall y gellid ei wneud er mwyn cael gwared ar rwystrau sy'n eu hatal rhag byw'n annibynnol yr ymateb mwyaf cyffredin oedd bod angen mwy o ymwybyddiaeth o faterion anabledd a bod angen gwella agweddau darparwyr gwasanaethau a'r cyhoedd.

Gan ddyfynnu un ymatebydd:

“Byddwch yn garedig a pheidiwch â bod ag ofn siarad gyda ni a gofyn i ni pa gefnogaeth rydyn ni ei hangen. Rydyn ni'n barod i helpu a rhoi cyngor os dowch chi i siarad gyda ni i ddechrau. Mae gennym farn bendant ac rydyn ni'n hoffi cael ein cynnwys, nid yn unig fel person anabl, ond hefyd fel person ifanc”.

## **Pennod 4 – Ymrwymiadau Llywodraeth Cymru**

Mae'r ymrwymiadau a ganlyn yn adlewyrchu'r egwyddorion cyffredinol a'r amgylchiadau sy'n cael eu hadlewyrchu ym mhenodau blaenorol y Fframwaith hwn, ac yn cydnabod bod pobl anabl yng Nghymru yn aml yn dal i wynebu lefelau uchel o dlodi a gwahaniaethu yn ogystal â mynediad cyfyngedig at addysg, cyflogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau. Adlewyrchir yr ymrwymiadau hyn yn y Cynllun Gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith ac sy'n nodi'n fanylach sut y maent yn cael eu rhoi ar waith.

### **Hawliau Pobl Anabl**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae Cymru'n cyflawni ei rhwymedigaethau yng nghyswllt Confensiynau'r CU ar Hawliau Pobl Anabl a Hawliau'r Plentyn.

Yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wneud popeth sydd yn ein gallu i sicrhau bod pobl anabl yn cael cynnig yr un cyfleoedd mewn bywyd â phawb arall. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus penodedig i wneud cymaint ag y gallant er mwyn cyflawni'r nodau Llesiant. Bydd y Fframwaith Gweithredu ar Anabledd hwn yn cyfrannu tuag at hyn. Bydd y Fframwaith a'i Gynllun Gweithredu yn dod yn rhan o waith ehangach Llywodraeth Cymru i hybu cydraddoldeb, gan gynnwys Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn y dyfodol.

### **Y Model Cymdeithasol o Anabledd**

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd a bydd yn gweithio er mwyn cynyddu dealltwriaeth o'r Model ar draws Llywodraeth Cymru a thu hwnt, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei adlewyrchu mor eang ag sy'n bosibl yn ein polisïau a'n rhaglenni.

### **Ymgysylltu a Chynnwys Ystyrion**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth profiad personol ac rydym wedi ymrwmo i gynnwys pobl sydd â phrofiadau o'r fath mewn ffordd ystyrion.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac yn y trydydd sector er mwyn sicrhau bod hawliau pobl anabl yn cael eu cefnogi yn ein polisïau a'n rhaglenni.

### **Iaith Briodol**

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio iaith, termau a delweddau sy'n cyfleu hawliau a chydraddoldeb pobl anabl, yn ogystal â'r ffaith ei bod wedi mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd, ym mhob cyfathrebiad a chyhoeddiad, ac yn y cyfryngau. Bydd yn rhoi canllawiau i gefnogi pobl eraill i wneud yr un fath hefyd. Er hyn, bydd yn parchu dewisiadau unigolion ynglŷn â sut y maent yn dymuno cyfeirio atynt eu hunain neu ddisgrifio eu hunain.

## **Gwybodaeth a lleoliadau hygyrch**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth ddefnyddio gwasanaethau drwy sicrhau bod ein gwybodaeth yn hygyrch i bawb a bod ein polisïau'n ystyried materion hygyrchedd yn ofalus.

Darperir dogfennau ymgynghori mewn fformatau amrywiol e.e. print bras, fersiynau hawdd eu deall a fideo iaith arwyddion Prydain. Cynhelir gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu mewn canolfannau a lleoliadau hygyrch a byddant yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n cynnwys pobl â namau amrywiol.

## **Hyfforddiant/arweiniad i staff**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau a hybu cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn y gwaith ac mae'n disgwyl i bob un o'i gweithwyr yng Nghymru arddel yr un gwerthoedd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gosod esiampyl gadarnhaol drwy ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth yng nghyswllt cydraddoldeb ac amrywiaeth i'w staff a bydd yn gweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill i'w hannog hwythau i wneud hynny hefyd.

## **Hybu Cydraddoldeb**

Yn ogystal â chydabod bod angen gwella polisïau, mae hefyd yn bwysig dathlu pan mae sefydliadau'n gwneud pethau'n iawn. Mae'n bwysig ein bod yn dal i ystyried dull cadarnhaol o'r fath mewn meysydd polisi eraill er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn edrych ar opsiynau ar gyfer dull newydd o annog sefydliadau i wella'r ffordd y maent yn gweithio gyda phobl anabl ac yn eu cefnogi, gan gynnwys staff, cwsmeriaid a'r cyhoedd.

## **Gweithredu polisïau a monitro**

Mae polisïau Llywodraeth Cymru, sydd i'w gweld yn y Cynllun Gweithredu cysylltiedig, yn dangos sut rydym yn ymateb i'r materion a wynebir gan bobl anabl. Bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn cael ei gadw'n gyfredol er mwyn adlewyrchu newid mewn amgylchiadau, ond bydd yn dal i adlewyrchu'r egwyddorion a'r ymrwymadau sylfaenol sydd yn y Fframwaith hwn.

Darperir diweddariadau am gynnydd ym mhob cyfarfod o Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl Llywodraeth Cymru ac yn flynyddol o leiaf i Fwrdd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

## Dolenni i ystadegau ar Anabledd

Mae'r dolenni isod yn darparu ystadegau sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd ynglŷn â phobl anabl yng Nghymru.

- Cyflawniad academaidd yn ôl anghenion addysgol arbennig (AAA) - <https://llyw.cymru/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?skip=1&lang=cy>
- Gweithgarwch economaidd yn ôl anabledd - <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/summaryofeconomicactivityinwales-by-year-disabledstatus-fromapril2013>
- Risg o fod mewn tlogi incwm cymharol yn ôl a oes anabledd yn y teulu - <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/>
- Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl anabledd - <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-localauthority-agegroup>
- Oedolion sy'n ddiodefwr unwaith neu fwy yn ôl salwch neu anabledd hirsefydlog - <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/thenatureofviolentcrimeappendixtables>
- Troseddau casineb anabledd a gofnodwyd gan yr heddlu - <https://www.gov.uk/government/statistics/police-recorded-crime-open-data-tables>
- Ymgeiswyr Llywodraeth Leol a chynghorwyr yn ôl anabledd - <https://gov.wales/statistics-and-research/local-government-candidates-survey/?skip=1&lang=cy>
- Is Wales Fairer? (2015): <https://www.equalityhumanrights.com/cy/node/529>

**Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol**  
**Cynllun Gweithredu**

## Ffyniannus a Diogel

Camau Gweithredu	Adran o Lywodraeth Cymru	Dolen i'r egwyddorion cyffredinol yn y ddogfen fframwaith
<p>1. Byddwn ni'n:</p> <p>Gweithredu Cynllun Cyflogadwyedd i Gymru er mwyn cynorthwyo pobl o oed gweithio i gael cyfleoedd gwaith ac i gael a chadw cyflogaeth gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Sectorau Cyhoeddus a Phreifat, y Trydydd Sector a'r Adran Gwaith a Phensiynau, er mwyn deall a lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl ac eraill rhag cael gwaith a symud ymlaen mewn cyflogaeth gynaliadwy.</p>	Cyflogaeth a Sgiliau	<p>UNCRPD Erthyglau 8, 9, 27</p> <p>Amcanion Llesiant 2, 7</p> <p>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 3, 7</p>
<p>2. Byddwn ni'n:</p> <p>Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun Mynediad i Waith yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac eraill drwy ein rhwydweithiau cymorth cyflogaeth, er mwyn sicrhau bod cynllun Mynediad i Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau'n cael ei hyrwyddo a bod llawer o waith yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr ac unigolion o sut y gall y cynllun helpu pobl anabl, y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio i aros mewn gwaith, neu i symud i gyflogaeth, a chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun yng Nghymru. Byddwn yn adeiladu ar y cyfleoedd i gael cymorth ychwanegol ar gyfer interniaethau, a phrentisiaethau lle bo'n ymarferol, i'r unigolion hynny sydd ag anableddau.</p>	Cydraddoldeb a Ffyniant	<p>UNCRPD Erthyglau 8, 9, 27</p> <p>Amcanion Llesiant 2, 7</p> <p>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 3, 7</p>



<p>3. Byddwn ni'n:</p> <p>Parhau i gefnogi'r rhai pellaf oddi wrth y farchnad lafur, sy'n wynebu rhwystrau cymhleth wrth geisio cael gwaith yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, drwy ein rhaglen Cymunedau am Waith, a Grant Cyflogadwyedd newydd Cymunedau am Waith a gyflwynwyd yn Ebrill 2018. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnig monitro a chymorth dwys, hyfforddiant a chyfleoedd i gael profiad gwaith er mwyn galluogi pobl i sicrhau cyflogaeth gynaliadwy.</p>	<p>Cyflogaeth</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 8, 9, 27</p> <p>Amcanion Llesiant 2, 7, 9</p> <p>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 3, 7</p>
<p>4. Byddwn ni'n:</p> <p>Defnyddio Busnes Cymru i hybu cyfleoedd cyflogaeth i bobl anabl drwy ddigwyddiadau, cylchlythyrau a'r cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Byddwn yn gweithio gydag entrepreneuriaid a BBaCh i ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion lleol er mwyn cyflwyno digwyddiadau a fydd yn canolbwyntio ar y cyfnod cyn cyflogaeth, er enghraifft rhaglen Modelau Rôl Syniadau Mawr Cymru.</p>	<p>Entrepreneuriaeth</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 8, 9, 27</p> <p>Amcanion Llesiant 2, 7</p> <p>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 3, 7</p>
<p>5. Byddwn ni'n</p> <p>Cefnogi recriwtio prentisiaid anabl fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ariannu Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i ddarparu'r rhwydwaith darparwyr dysgu seiliedig ar waith gyda strwythur cefnogol i'w helpu i gynyddu nifer y bobl anabl a'r unigolion o grwpiau gwarchoddedig eraill sy'n dilyn Prentisiaethau a sicrhau eu bod yn cael cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol os yw'n briodol.</li> </ul>	<p>Prentisiaethau</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 8, 9, 24, 27</p> <p>Amcanion Llesiant 2, 7, 8, 9</p> <p>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 3, 7</p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>– Datblygu pecyn cymorth, canllawiau a hyfforddiant pwrpasol ar gyfer y rhwydwaith darparwyr dysgu seiliedig ar waith i’w ddefnyddio wrth asesu anghenion cymorth eu dysgwyr o ddydd i ddydd fel bod modd gwneud addasiadau rhesymol i gynorthwyo dysgwyr anabl i gwblhau eu fframweithiau prentisiaeth.</li> <li>– Gwneud gwaith hyrwyddo, gan gynnwys astudiaethau achos yn defnyddio sianeli amrywiol, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, a gweithio gydag Action on Hearing Loss a sefydliadau partner i hyrwyddo Prentisiaethau drwy’r prosiect ‘Rhowch Gynnig Arni’.</li> </ul>		
<p>6. Byddwn:</p> <p>Fel arweinydd Hyderus o ran Anabledd, yn cynghori sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ynglŷn â’u siwrnai Hyderus o ran Anabledd eu hunain ac yn rhannu’r polisiâu a’r gweithdrefnau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi ar waith i gefnogi ein gweithwyr anabl.</p>	Adnoddau Dynol	<p>UNCRPD Erthygl 8</p> <p>Amcan Llesiant 2</p> <p>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 3, 7</p>
<p>7. Byddwn ni’n:</p> <p>Sefydlu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Anabledd i ymgysylltu â gwahanol gyflogwyr ledled Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at asedau, sgiliau ac entrepreneuriaeth pobl anabl; mabwysiadu dulliau cynhwysol yn eu prosesau recriwtio; a helpu cyflogwyr i ddeall y rhwystrau a wynebdir gan bobl anabl.</p>	Cydraddoldeb	<p>UNCRPD Erthyglau 8, 9, 27</p> <p>Amcan Llesiant 2</p>
<p>8. Byddwn ni’n:</p> <p>Datblygu cynllun gwobrau anabledd Cymru (<i>a fyddai’n cael ei asesu’n allanol</i>) ar gyfer cyflogwyr a fyddai naill ai’n adeiladu ar Hyderus o ran Anabledd neu’n gynllun newydd i annog cyflogwyr i anelu i fod yn fwy cefnogol o bobl anabl.</p>	Cydraddoldeb	<p>UNCRPD Erthyglau 8, 9, 27</p> <p>Amcan Llesiant 2</p>

<p>9. Byddwn ni'n:</p> <p>Cynnal Adolygiad o'r System cymhorthion ac addasiadau sy'n cynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Bydd canlyniad yr Adolygiad yn sail i bolisi cymhorthion ac addasiadau yn y dyfodol ac yn symleiddio'r broses bresennol. Disgwylir yr argymhellion terfynol cyn diwedd 2019. Hefyd, mae swyddogion yr adolygiad yn gweithio gyda rhanddeiliaid i weithredu'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Archwilydd Cyffredinol yn eu adolygiad o Addasiadau Tai yn 2018 - mae hyn yn cynnwys gwaith ar drefniadau diwygiedig i fonitro data, ymgynghoriad ynghylch Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai a chanllawiau i helpu i integreiddio mwy ar wasanaethau.</p>	<p>Tai</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 19, 20, 28</p> <p>Amcan Llesiant 6</p> <p>Amcan 1 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>10. Byddwn ni'n:</p> <p>Parhau i ddarparu cymorth yn ymwneud â thai i helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.</p>	<p>Tai</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 19, 28</p> <p>Amcan Llesiant 6</p> <p>Amcan 1 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>11. Byddwn:</p> <p>Drwy'r Rhaglen Tai Arloesol, yn ysgogi ffyrdd newydd o feddwl wrth gynllunio a darparu tai fforddiadwy i adlewyrchu nodau cyffredinol Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.</p>	<p>Tai</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 19, 28</p> <p>Amcan Llesiant 6</p> <p>Amcan 7 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>

<p>12. Byddwn ni'n:</p> <p>Darparu cymorth i bobl anabl drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol <a href="https://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/debt/discretionary-assistance-fund/?skip=1&amp;lang=cy">https://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/debt/discretionary-assistance-fund/?skip=1&amp;lang=cy</a> i bobl sydd mewn argyfwng neu sydd angen cefnogaeth i'w helpu i aros yn y gymuned.</p>	<p>Cynhwysiant Digidol ac Ariannol</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 12, 19, 28</p> <p>Amcanion Llesiant 5, 10</p> <p>Amcan 7 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>13. Byddwn ni'n:</p> <p>Sicrhau bod ein dull o drechu tlodi ymhlith pobl anabl, a phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig eraill, yn seiliedig ar sail dystiolaeth gref, gan gynnwys, er enghraifft, dadansoddiadau parhaus o setiau data perthnasol (fel Arolwg Cenedlaethol Cymru) a dadansoddiad o effeithiau diwygio lles.</p> <p>Amlinellir camau pellach i leihau tlodi a lliniaru effeithiau tlodi dan Amcan 7 yng <i>Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru</i>. <a href="https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/equality-objectives/?skip=1&amp;lang=cy">https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/equality-objectives/?skip=1&amp;lang=cy</a></p>	<p>Cydraddoldeb</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 12, 28, 31</p> <p>Amcanion Llesiant 5, 10</p> <p>Amcan 7 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>

# Iach ac Egniol

Camau Gweithredu	Adran o Lywodraeth Cymru	Dolen i'r egwyddorion cyffredinol yn y ddogfen fframwaith
<p>1. Byddwn ni'n:</p> <p>Monitro'r defnydd o Safonau Cymru Gyfan o ran cyfathrebu a gwybodaeth i bobl â nam ar eu synhwyrau sydd mewn sefydliadau gofal eilaidd</p>	<p>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Uned Fusnes</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 25</p> <p>Amcanion Llesiant 4, 6</p>
<p>2. Byddwn ni'n:</p> <p>Integreiddio'r gwasanaeth 111 a'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth a ddatblygwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn darparu fframwaith mwy holistaidd lle gall pobl gael cyngor a chymorth ymarferol i wella'u hiechyd a'u lles i'r eithaf a hyrwyddo mwy o annibyniaeth.</p>	<p>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyflawni a Pherfformio</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 25</p> <p>Amcanion Llesiant 4, 5, 6</p> <p>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 1, 2</p>
<p>3. Byddwn ni'n:</p> <p>Creu plattform digidol ar-lein i ddinasyddion, i roi mwy o reolaeth i bobl a'u galluogi i gymryd rhan mwy gweithredol yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.</p>	<p>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gofal Digidol</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 25</p> <p>Amcanion Llesiant 4, 5, 6</p> <p>Amcan 2 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>

<p>4. Byddwn ni'n:</p> <p>Sicrhau bod gan bobl anabl lais ar faterion eiriolaeth drwy ymgynghori â nhw ac ag eraill sydd â nodweddion gwarchoddedig wrth ddatblygu fframwaith newydd i reoleiddio ac arolygu gwasanaethau eiriolaeth statudol i blant ac oedolion cymwys.</p>	<p>Arolygiaeth Gofal Cymru</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 7, 9, 25</p> <p>Amcanion Llesiant 4, 6</p> <p>Amcan 2 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>5. Byddwn:</p> <p><i>Drwy Law yn Llaw at Iechyd, Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid 2013- 2018</i>, yn gweithio gyda Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru i sicrhau atgyfeiriadau effeithiol at y gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector i gynorthwyo unigolion sydd â nam ar eu golwg i sefydlu'r canlyniadau y maent yn dymuno eu cael.</p> <p><a href="https://gov.wales/docs/dhss/publications/130916eyehealthcaredeliveryplancy.pdf">https://gov.wales/docs/dhss/publications/130916eyehealthcaredeliveryplancy.pdf</a></p>	<p>Iechyd Synhwyrdd</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 21, 25</p> <p>Amcanion Llesiant 4, 5, 6</p> <p>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 1, 2</p>
<p>6. Byddwn ni'n:</p> <p><i>Gweithredu'r Fframwaith gofal a chymorth integredig ar gyfer pobl sy'n fyddar neu sy'n byw â cholled clyw</i> fel bod pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw yn cael mynediad teg at wasanaethau.</p> <p><a href="https://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/audiology/?skip=1&amp;lang=cy">https://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/audiology/?skip=1&amp;lang=cy</a></p>	<p>Iechyd Synhwyrdd</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 21, 25</p> <p>Amcanion Llesiant 4, 5, 6</p> <p>Amcan 1 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>7. Byddwn,</p> <p><i>Drwy ein Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig</i>, yn cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag awtistiaeth, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu deall a'u bod yn gallu</p>	<p>Pobl Hŷn, Gofalwyr a Phobl Anabl</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 7, 9, 25</p> <p>Amcanion Llesiant 4, 5, 7</p>

<p>cyflawni eu canlyniadau llesiant eu hunain a byw bywydau llawn.  <a href="https://gov.wales/docs/dhss/publications/anhwylderaur-sbectrwm-awtistig-diueddariad-or-cynllun-cyflawni-2018-2021.pdf">https://gov.wales/docs/dhss/publications/anhwylderaur-sbectrwm-awtistig-diueddariad-or-cynllun-cyflawni-2018-2021.pdf</a></p>		<p>Amcan 1 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>8. Byddwn:</p> <p>Rhwng 2016 a 2021 yn buddsoddi £13m i helpu i gyflwyno gwasanaeth awtistiaeth integredig i ddarparu cymorth gydol oes i blant ac oedolion sydd ag awtistiaeth, a'u teuluoedd. Bydd y gwasanaeth integredig yn darparu gwasanaethau diagnostig newydd i oedolion; cefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr; cymorth wrth symud o ddarpariaeth plant i ddarpariaeth oedolion a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.</p>	<p>Pobl Hŷn, Gofalwyr a Phobl Anabl</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 7, 9, 25</p> <p>Amcanion Llesiant 4, 5, 7</p> <p>Amcan 1 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>9. Byddwn ni'n:</p> <p>Gweithio gyda'r GIG er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at wasanaethau Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg o safon uchel a all helpu pobl i reoli eu cyflyrau cronig hirdymor eu hunain a gwella canlyniadau i gleifion drwy fwy o annibyniaeth a llesiant.</p>	<p>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Technoleg ac Arloesi</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 20, 25</p> <p>Amcanion Llesiant 4, 5, 6</p> <p>Amcan 1 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>10. Byddwn ni'n:</p> <p>Sicrhau darpariaeth a mynediad teg at wasanaethau iechyd meddwl drwy weithredu cynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2016-19.  <a href="http://www.llyw.cymru/topics/health/nhswales/plans/mental-health/?skip=1&amp;lang=cy">www.llyw.cymru/topics/health/nhswales/plans/mental-health/?skip=1&amp;lang=cy</a>. Yn fwyaf penodol, mae pwynt 3.1 yn y cynllun yn ceisio lleihau anghydraddoldeb i bobl sydd ag anghenion iechyd meddwl, gan sicrhau darpariaeth a mynediad teg at wasanaethau iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys:</p>	<p>Iechyd Meddwl Oedolion a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 25</p> <p>Amcanion Llesiant 4, 5, 6</p> <p>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 1, 2, 7</p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>– darparu canllawiau a gwybodaeth ategol i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol ar gefnogi defnyddwyr gwasanaeth sydd â nodweddion gwarchoddedig, a</li> <li>– byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn sicrhau i'r graddau y mae hynny'n bosibl bod yr holl staff gofal iechyd wedi dilyn y pecyn e-ddysgu hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol, Fy Nhrin yn Deg, a ddatblygwyd gan Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG a GIG Cymru.</li> </ul>		
<p>11. Byddwn ni'n:</p> <p>Cefnogi gwaith i weithredu'r argymhellion trawslywodraethol a nodwyd yn adroddiad <i>Gwella Bywydau</i> sydd â'r nod o gryfhau'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi a'u gwneud yn fwy cynaliadwy i bobl ag anabledd dysgu.</p> <p>Sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol o fewn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, cyflogaeth, sgiliau a thai.</p>	Nyrsio	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 19, 24, 25</p> <p>Amcanion Llesiant 2, 4, 5, 6, 7, 10</p> <p>Amcan 1 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>12. Byddwn ni'n:</p> <p>Darparu cymorth ariannol i Chwaraeon Anabledd Cymru drwy Chwaraeon Cymru. Mae'r arian yn galluogi pobl ag anableddau o bob math i gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon ac mae'n cynnwys pob lefel, o lawr gwlad a chymunedol hyd at y lefel elit lle gwelir para-athletwyr o Gymru yn cynrychiol Cymru a Thîm Prydain Fawr.</p>	Chwaraeon	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 19, 30</p> <p>Amcanion Llesiant 5, 7</p> <p>Amcan 6 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>



<b>Uchelgais a Dysgu</b>		
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Adran o Lywodraeth Cymru</b>	<b>Dolen i'r egwyddorion cyffredinol yn y ddogfen fframwaith</b>
<p>1. Byddwn:</p> <p>Fel rhan o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau arbenigol i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan anabledd. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn barod yn y maes hwn drwy gynorthwyo Awdurdodau Lleol i barhau i ddatblygu gwasanaethau arbenigol a gwella sgiliau ymarferwyr prif ffrwd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gallu diwallu anghenion penodol teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan anabledd yn eu hardaloedd lleol.</p>	Plant a Theuluoedd	<p>UNCRPD Erthyglau 7, 9, 19</p> <p>Amcanion Llesiant 4, 5, 6, 7</p> <p>Amcan 7 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>2. Byddwn:</p> <p>Fel rhan o gylch gwaith Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chwarae Cymru i helpu awdurdodau lleol i gyflawni'u Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol. Mae Chwarae Cymru wedi gweithio gydag Alison John and Associates i ddatblygu 'Pecyn Cymorth Mannau Chwarae Hygyrch'. Mae'r pecyn cymorth, a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2017, yn rhoi arweiniad ar chwarae cynhwysol a hygyrch i ddiwallu anghenion plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl.</p> <p><a href="http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau/creatingaccessibleplayspace">http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau/creatingaccessibleplayspace</a></p>	Plant a Theuluoedd	<p>UNCRPD Erthyglau 7, 9, 19, 24, 30</p> <p>Amcanion Llesiant 5, 6, 7</p>

<p>3. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, bod gofal plant digonol ar gael yn eu hardal i ddiwallu anghenion rhieni sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae rhan o'r ddyletswydd hon yn cynnwys darparu gofal i blant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu sydd angen gofal arbenigol. Cynhaliodd Awdurdodau Lleol asesiadau llawn o gyfleoedd chwarae digonol yn 2017 a chyhoeddwyd y canlyniadau ar eu gwefannau. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gweithredu sy'n dangos sut y maent yn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Mae Awdurdodau Lleol yn cynhyrchu Adroddiadau Cynnydd yn flynyddol i ddiweddarau'r cynllun gweithredu. Cynhelir yr asesiad llawn nesaf o gyfleoedd chwarae digonol yn 2022.</p>	<p>Plant a Theuluoedd</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 6, 7, 9, 19</p> <p>Amcanion Llesiant 2, 4, 5, 6, 10</p>
<p>4. Byddwn ni'n:</p> <p>Gweithredu ein <i>Rhaglen Trawsnewid System Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)</i>, er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn system addysg gynhwysol, lle mae anghenion yn cael eu canfod yn gynnar ac yn cael sylw'n fuan, a lle mae pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyflawni ei botensial.</p> <p><a href="https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/?skip=1&amp;lang=cy">https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/?skip=1&amp;lang=cy</a></p>	<p>Cymorth i Ddysgwyr</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 7, 9, 24</p> <p>Amcanion Llesiant 7, 8, 9, 10</p> <p>Amcan 2 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>5. Byddwn ni'n:</p> <p>Cefnogi pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu a/neu anableddau i gael mynediad i addysg ôl-16, gan gynnwys darpariaeth arbenigol, er mwyn iddynt allu datblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i fyw bywydau annibynnol neu led-annibynnol:</p>	<p>Cymorth i Ddysgwyr</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 7, 9, 19, 24</p> <p>Amcanion Llesiant 7, 8, 9, 10</p> <p>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 1, 2</p>

<p>6. Byddwn ni'n:</p> <p>Cynorthwyo myfyrwyr anabl i gael mynediad a bod yn llwyddiannus mewn Addysg Uwch drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– gynnal adolygiad o'r polisi Lwfansau i Fyfirwyr Anabl yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael ei dargedu'n effeithiol;</li> <li>– cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol y Lwfans i Fyfirwyr Anabl.</li> </ul>	<p>Strategaeth Addysg Uwch, Polisi a Chyflawni</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 7, 24 Amcanion Llesiant 7, 8, 9</p>
<p>7. Byddwn ni'n:</p> <p>Mynd i'r afael â throeddau casineb anabledd, aflonyddu a bwlio drwy ein <i>Fframwaith Gweithredu yn erbyn Troeddau Casineb</i>. Mae amcanion y Fframwaith yn cynnwys atal, cefnogi dioddefwyr a gwella gwaith amlasiantaethol.</p> <p><a href="https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/hate-crime/?skip=1&amp;lang=cy">https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/hate-crime/?skip=1&amp;lang=cy</a></p>	<p>Cydraddoldeb</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 7, 8, 16 Amcanion Llesiant 5, 6, 10 Amcan 4 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>8. Byddwn ni'n:</p> <p>Gweithredu'r Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor i sicrhau mynediad teg at wasanaethau cynghori safonol, a fydd yn cynnwys cyngor ynghylch dyledion, lles, tai, cyflogaeth a gwahaniaethu i bobl anabl.</p> <p><a href="https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/advice-services/information-and-advice-action-plan/?skip=1&amp;lang=cy">https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/advice-services/information-and-advice-action-plan/?skip=1&amp;lang=cy</a></p>	<p>Cynhwysiant Digidol ac Ariannol</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 12, 19, 28 Amcanion Llesiant 5, 6, 9, 10 Amcan 2 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>

<p>9. Byddwn ni'n:</p> <p>Gweithredu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Cymru gan gynnig Nod Ansawdd y bydd y cyhoedd yn gallu ei adnabod. Bydd hyn yn help i sicrhau bod pawb sy'n troi at wasanaethau cynghori, gan gynnwys pobl anabl, yn gallu bod yn hyderus eu bod yn cael cyngor safonol.</p> <p><a href="https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/advice-services/information-and-advice-action-plan/?skip=1&amp;lang=cy">https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/advice-services/information-and-advice-action-plan/?skip=1&amp;lang=cy</a></p>	<p>Cynhwysiant Digidol ac Ariannol</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 12</p> <p>Amcanion Llesiant 5, 6, 9, 10</p> <p>Amcan 2 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>10. Byddwn ni'n:</p> <p>Gweithio er mwyn cynyddu dealltwriaeth o'r Model Cymdeithasol ar draws Llywodraeth Cymru a thu hwnt, i sicrhau ei fod yn cael ei adlewyrchu'n eang yn ein polisïau a'n rhaglenni. Byddwn yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynnal cyrsiau a gweithdai i hybu ymwybyddiaeth o'r Model Cymdeithasol</li> <li>• gweithio mewn cysylltiad agos ag arweinwyr polisi ar draws Llywodraeth Cymru i'w hannog i gynnwys y model mewn polisïau newydd ac yn y polisïau sy'n bodoli'n barod</li> <li>• gweithio gyda'n tîm cyfathrebu er mwyn sicrhau bod enghreifftiau o ymarfer da yn gysylltiedig â'r Model Cymdeithasol yn cael cyhoeddusrwydd ar Fewnrwyd Llywodraeth Cymru</li> </ul>	<p>Cydraddoldeb</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 8, 9</p> <p>Amcanion Llesiant 5, 6, 10</p>

## Unedig a Chysylltiedig

Camau Gweithredu	Adran o Lywodraeth Cymru	Dolen i'r egwyddorion cyffredinol yn y ddogfen fframwaith
<p>1. Byddwn ni'n:</p> <p>Gwneud cludiant cyhoeddus yn fwy hygyrch i bobl anabl drwy'r dulliau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Monitro bodlonrwydd teithwyr â gorsafoedd rheilffyrdd gan ddefnyddio ymchwil a wnaethpwyd gan Transport Focus.</li> <li>– Sicrhau bod gorsafoedd newydd, a rhai sy'n cael eu hadnewyddu, yn cael eu datblygu yn unol â <i>Vision for Stations</i> sy'n cynnwys egwyddorion y model cymdeithasol o anabledd yn y gofynion ar gyfer dylunio gorsafoedd.</li> <li>– Monitro hygyrchedd gwasanaethau bws lleol ar ôl cyflwyno'r safonau gwirfoddol ar gyfer ansawdd bysiau fel rhan o'r trefniadau monitro sy'n bodoli mewn cysylltiad â'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau.</li> <li>– Gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth a'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl er mwyn datblygu canllawiau ymarfer da a fydd ar gael i weithredwyr bysiau a choetsys i'w helpu i ddatblygu a darparu hyfforddiant i wneud gyrwyr yn fwy ymwybodol o anabledd.</li> <li>– Gweithio gyda'n Panel Trafnidiaeth Hygyrch i ddatblygu</li> </ul>	<p>Polisi Trafnidiaeth, Cynllunio a Phartneriaethau</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 8, 9, 19, 21</p> <p>Amcanion Llesiant 10, 11</p> <p>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 1, 6</p>

<p>amcanion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gyda champau gweithredu penodol sy'n cael eu cynllunio er mwyn gwella hygyrchedd a chynhwysiant ar draws y rhwydwaith cludiant cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Asesu hygyrchedd gwasanaethau awyrennau gogledd / de Cymru sy'n cael eu darparu dan gontract gan Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod teithwyr anabl yn gallu teithio mewn awyren yng Nghymru yn hyderus ac y byddant yn dal i allu gwneud hynny dan y contract newydd o Chwefror 2019 ymlaen.</p>	<p>Seilwaith Economaidd - Hedfan</p>	
<p>2. Byddwn ni'n:</p> <p>Gweithredu'r Fframwaith a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cynhwysiant Digidol ac yn cyflawni ein hymrwymiad yn Ffyniant i Bawb i fuddsoddi yn sgiliau digidol pobl gan weithio gyda phobl hŷn a sefydliadau anabledd i gefnogi gweithgareddau Cynhwysiant Digidol a helpu i gydlynu'r rhain ledled Cymru.</p> <p><a href="https://gov.wales/topics/science-and-technology/digital/digital-inclusion/?skip=1&amp;lang=cy">https://gov.wales/topics/science-and-technology/digital/digital-inclusion/?skip=1&amp;lang=cy</a></p>	<p>Cynhwysiant Digidol ac Ariannol</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 19</p> <p>Amcanion Llesiant 9, 10, 11</p> <p>Amcan 2 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>3. Byddwn ni'n:</p> <p>Darparu cymorth i bobl anabl drwy ein Cynllun Mynediad i Fand Eang Cymru, sy'n agored i bob unigolyn a chymuned sy'n bodloni'r meini prawf, er mwyn cael Band Eang Cyflym lawn mewn ardaloedd lle nad yw ar gael ar hyn o bryd.</p> <p><a href="https://beta.llyw.cymru/ddim-ar-gael-ewch-am-help?_ga=2.129929546.775209074.1538487040-2011483844.1538487040">https://beta.llyw.cymru/ddim-ar-gael-ewch-am-help?_ga=2.129929546.775209074.1538487040-2011483844.1538487040</a></p>	<p>Seilwaith TGCh</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 19</p> <p>Amcanion Llesiant 10, 11</p> <p>Amcan 7 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>

<p>4. Byddwn ni'n:</p> <p>Gwerthuso ein Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth i helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol i wella cynrychiolaeth grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli mewn llywodraeth leol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.</p> <p><a href="https://gov.wales/topics/localgovernment/diversity-in-democracy/?skip=1&amp;lang=cy">https://gov.wales/topics/localgovernment/diversity-in-democracy/?skip=1&amp;lang=cy</a></p>	<p>Llywodraeth Leol</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 29</p> <p>Amcanion Llesiant 2, 10</p> <p>Amcan 5 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>5. Byddwn ni'n:</p> <p>Ystyried sefydlu cronfa 'Porth i Ddemocratiaeth', a fydd yn debyg i'r cynllun Access to Elected Office yn Lloegr, i roi cymorth ariannol i bobl anabl sy'n rhedeg ymgyrch etholiadol mewn etholiadau llywodraeth leol.</p>	<p>Llywodraeth Leol</p>	<p>UNCRPD Erthygl 29</p> <p>Amcanion Llesiant 2, 10</p> <p>Amcan 5 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>6. Byddwn ni'n:</p> <p>Sefydlu data penodiadau cyhoeddus cadarn er mwyn monitro'n effeithiol nifer y bobl anabl sy'n ymgeisio, sy'n cael eu rhoi ar y rhestr fer ac yn y pen draw yn cael eu recriwtio/ailbenodi i Fyrddau'r sector cyhoeddus. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod a rhoi sylw i rwystrau penodol yn y broses recriwtio.</p>	<p>Uned Cyrff Cyhoeddus</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 29</p> <p>Amcanion Llesiant 2, 10</p> <p>Amcan 5 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>7. Byddwn ni'n:</p> <p>Cynorthwyo cyrff sy'n cael arian gan y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant i ddarparu casgliad mwy amrywiol o bobl sy'n gwneud</p>	<p>Uned Cyrff Cyhoeddus</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 29</p> <p>Amcanion Llesiant 2, 10</p>

<p>penderfyniadau mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus drwy ganfod a rhoi sylw i rwystrau sy'n atal pobl anabl a grwpiau eraill sy'n cael eu tangynrychioli rhag ymgysylltu a chymryd rhan.</p>		<p>Amcan 5 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>8. Byddwn ni'n:</p> <p>Gweithio gyda phartneriaid er mwyn gwneud gwybodaeth i ymwelwyr anabl sy'n chwilio am leoedd i aros neu i ymweld â hwy yn fwy hygyrch, ac yn cyfeirio busnesau twristiaeth at gynlluniau a all helpu i wella eu darpariaeth ar gyfer ymwelwyr anabl.</p>	<p>Twristiaeth</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 19, 21, 30</p> <p>Amcanion Llesiant 6, 10</p> <p>Amcan 2 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p>
<p>9. Byddwn ni'n:</p> <p>Cynnal ymchwil ymwelwyr ar safleoedd hanesyddol a henebion sydd yng ngofal y wladwriaeth er mwyn ystyried ein cynulleidfa yn y dyfodol. Bydd yr wybodaeth a gawn yn sail i strategaethau a pholisïau yn ymwneud â hygyrchedd yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â phobl ag anableddau corfforol ac anableddau dysguer mwyn gwella hygyrchedd i bawb.</p> <p>Cynllunio ar gyfer y gwaith o ddylunio a gosod liffiau teithwyr i ddarparu mynediad i ran o waliau tref Caernarfon ac i ran o'r murfylchau yng Nghastell Caernarfon.</p> <p>Datblygu dogfen ganllawiau newydd a fydd yn egluro sut i gynllunio a gwella mynediad i adeiladau rhestredig yng Nghymru i bawb, gan ddefnyddio enghreifftiau go iawn.</p>	<p>CADW</p>	<p>UNCRPD Erthyglau 9, 19, 21, 30</p> <p>Amcanion Llesiant 6, 10</p>



### **Ffyniant i Bawb - Amcanion Llesiant**

1. Cefnogi pobl a busnesau i hybu ffyniant
2. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hybu gwaith teg
3. Hybu twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
4. Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas ar gyfer y dyfodol
5. Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
6. Creu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau
7. Helpu pobl i gyflawni eu potensial
8. Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw
9. Arfogi pawb â'r sgiliau addas ar gyfer byd sy'n newid
10. Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth
11. Darparu seilwaith modern a chysylltiedig
12. Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd

## Rhowch bennawd yn ymwneud â'r cwestiynau

### Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu yn nogfen *Gweithredu ar Anabledd: yr Hawl i Fyw'n Annibynnol* Llywodraeth Cymru? Esboniwch y rhesymau dros eich ateb yn y blwch sylwadau eraill. (Gweler hefyd y cwestiynau isod ar faterion penodol.)

**Cwestiwn 2:** Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod sefydliadau a chymunedau eraill ledled Cymru yn gweithredu i gefnogi'r cysyniad o'r Hawl i Fyw'n Annibynnol. Beth yw'r ffordd orau o weithio gydag eraill i gyflawni hyn?

**Cwestiwn 3:** Gan gyfeirio at Bennod 2 yn benodol, a ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau eraill ers i'r Fframwaith blaenorol gael ei gyhoeddi yn 2013 y dylid eu cynnwys yn eich barn chi?

**Cwestiwn 4:** Ein nod yw i bawb gael y cyfle i gyflawni eu potensial yn llawn a byw bywyd iach, llewyrchus a boddhaus, gan eu galluogi i gymryd rhan lawn yn eu cymunedau a chyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut gallem gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?

**Cwestiwn 5:** Dylai pawb fod â'r sgiliau a'r addysg sydd eu hangen arnynt i gael swydd a'r cyfle i ddatblygu sgiliau newydd drwy gydol eu bywyd gwaith. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut gallwn gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?

**Cwestiwn 6:** Rydym am i bawb fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a llewyrchus. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut gallwn gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?

**Cwestiwn 7:** Rydym am i sector gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd Cymru gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol. Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, sut gallwn gyflawni hyn yn well ar gyfer pobl anabl?

**Cwestiwn 8:** Gan ystyried y Cynllun Gweithredu, beth arall allwn ni ei wneud i wella hygyrchedd lleoliadau a thrafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl?

**Cwestiwn 9:** Yn eich barn chi, pa faterion eraill sy'n effeithio ar bobl anabl ddylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru?

**Cwestiwn 10:** Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai *Gweithredu ar Anabledd: yr Hawl i Fyw'n Annibynnol* yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 11:** Esboniwch hefyd sut y credwch y gellid llunio'r polisi arfaethedig *Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol* neu ei newid er mwyn:

- creu effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg,
- a sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'r gofyniad i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 12:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech chi godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn er mwyn sôn amdanynt. Rhowch eich sylwadau yn y fan yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.